# Datganiadau Meincnod Pwnc

## Gwaith Cymdeithasol

Ebrill 2026



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cynnwys


**Ynghylch y Datganiad hwn ........ 1**

Sut ydw i'n defnyddio'r ddogfen hon? ........ 1

Y berthynas â deddfwriaeth ........ 1

Pwyntiau cyfeirio ychwanegol y sector ........ 2

**1. Cyd-destun a dibenion gradd mewn Gwaith Cymdeithasol ........ 3**

Dibenion a nodweddion gradd mewn Gwaith Cymdeithasol ........ 3

Tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ........ 4

Hygyrchedd ac anghenion myfyrwyr ag anableddau ........ 6

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy ........ 7

Addysg cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth ........ 9

Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ........ 11

**2. Nodweddion arbennig cwrs Gwaith Cymdeithasol ........ 12**

Cynllun ........ 12

Cyrff rheoleiddio ........ 13

Cynnydd ........ 15

Hyblygrwydd ........ 15

Partneriaeth ........ 16

Monitro ac adolygu ........ 17

**3. Cynnwys, strwythur a darpariaeth ........ 18**

Cynnwys ........ 18

Dysgu ac addysgu ........ 18

Asesu ........ 19

**4. Safonau meincnodi ........ 20**

Cyflwyniad ........ 20

Dosbarthu ........ 20

Gradd baglor gydag anrhydedd ........ 21

Gradd meistr integredig ........ 23

Safonau meincnodi ar gyfer gradd meistr ôl-raddedig ........ 233

**5. Rhestr o gyfeiriadau ac adnoddau eraill ........ 25**

Adnoddau defnyddiol i ddarparwyr cyrsiau ........ 25

Cyfeiriadau ........ 25

Adnoddau defnyddiol gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio ........ 26

**6. Aelodaeth y Grŵp Cynghori ........ 28**

# Ynghylch y Datganiad hwn

Yn y Datganiad Meincnodi Pwnc hwn ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, mae QAA yn diffinio'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan bobl sydd wedi graddio yn y pwnc, o ran yr hyn y gallant ei wybod, ei wneud a'i ddeall ar derfyn eu hastudiaethau. Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn rhan sefydledig o'r trefniadau sicrhau ansawdd ym maes addysg uwch y DU. Maen nhw'n bwyntiau cyfeirio ar gyfer y sector penodol, a ddatblygwyd ac a ysgrifennwyd gan academyddion. Hefyd, mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn disgrifio natur a nodweddion y dyfarniadau mewn disgyblaeth benodol neu faes astudio penodol. Mae QAA yn cyhoeddi Datganiadau Meincnodi Pwnc yn ei rôl fel corff o arbenigwyr sy'n sicrhau ansawdd ar ran y sector addysg uwch. Hefyd, mae crynodeb o'r Datganiad i'w weld ar wefan QAA.

Mae'r newidiadau allweddol a wnaed ers fersiwn blaenorol y Datganiad Meincnodi Pwnc yn cynnwys:

- symleiddio, er mwyn gwella eglurder, effeithiolrwydd a ffocws, a thrwy hynny helpu darparwyr cyrsiau i ddatblygu llwybrau newydd ac amrywiol i mewn i waith cymdeithasol, gan roi ystyriaeth i'r canlynol:
  - tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (TCAC)
  - hygyrchedd ac anghenion myfyrwyr ag anableddau
  - addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ADC)
  - addysg cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth (CME)
  - deallusrwydd artiffisial (DA) cynhyrchiol
- adolygiad cynhwysfawr sy'n diweddaru'r cyd-destun a'r dibenion, yn cynnwys cynllun a chynnwys y cwrs, er mwyn hysbysu a thanategu'r safonau meincnodi diwygiedig.

## Sut ydw i'n defnyddio'r ddogfen hon?

Nid yw'r Datganiadau Meincnodi Pwnc wedi eu bwriadu i ragnodi unrhyw ddulliau penodol o addysgu, dysgu neu asesu. Yn hytrach, maen nhw'n darparu fframwaith y mae cymuned y pwnc wedi cytuno arno, sy'n ffurfio'r sail y gall y rheiny sy'n gyfrifol am lunio, cymeradwyo a diweddaru cwricwla ei defnyddio wrth ystyried cwrs a'r modiwlau sy'n rhan ohono. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd ac arloesedd wrth lunio cyrsiau gan hefyd ddarparu pwynt cyfeirio allanol a dderbynnir yn eang ar gyfer y maes hwnnw.

Gallan nhw hefyd gael eu defnyddio fel pwynt cyfeirio gan arholwyr allanol pan fyddant yn ystyried a yw cynllun cwrs a'r safonau cyflawniad trothwy'n gymaradwy â rhai darparwyr addysg uwch eraill. Yn ogystal, mae datganiadau'n gallu cefnogi cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh) gyda'u diffiniadau a'u dehongliadau o safonau academaidd.

Efallai y byddwch eisiau darllen y ddogfen hon os ydych:

- yn ymwneud â llunio, darparu ac adolygu cyrsiau Gwaith Cymdeithasol
- yn ddarpar fyfyriwr sy'n ystyried astudio cwrs Gwaith Cymdeithasol
- yn gyflogwr sydd eisiau gwybod pa wybodaeth a sgiliau a ddisgwylir fel arfer gan bobl sydd wedi graddio mewn Gwaith Cymdeithasol.

## Y berthynas â deddfwriaeth

Ar ysgwyddau'r darparwr addysg uwch sy'n dyfarnu'r radd y mae'r cyfrifoldeb am safonau academaidd. Mae darparwyr addysg uwch yn gyfrifol am ateb gofynion y ddeddfwriaeth ac unrhyw ofynion rheoleiddiol eraill a roddir arnynt gan eu cyrff cyllido a rheoleiddio perthnasol. Nid yw'r Datganiad hwn yn dehongli deddfwriaeth nac yn ymgorffori gofynion statudol neu reoleiddiol.

Bydd statws Datganiadau Meincnodi Pwnc yn amrywio yn dibynnu ar awdurdodaeth addysgol benodol y DU. Yn Lloegr, nid oes gan Ddatganiadau Meincnodi Pwnc statws y safonau a gydnabyddir gan y sector, fel sydd wedi ei nodi yn fframwaith rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr. Fodd bynnag, mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn rhan o'r gofynion ansawdd cyfredol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Am fod y Datganiad yn disgrifio'r deilliannau a phriodoleddau a ddisgwylir gan fyfyrwyr ar y safon cyflawni trothwy drwy'r DU gyfan, bydd nifer o ddarparwyr addysg uwch yn eu defnyddio i'w helpu wrth ddylunio a chymeradwyo cyrsiau, ac ar gyfer gwaith monitro ac adolygu dilynol, yn ogystal â helpu i ddynodi diogelwch y safonau academaidd.

## Pwyntiau cyfeirio ychwanegol y sector

Mae'n debygol y bydd darparwyr addysg uwch yn ystyried pwyntiau cyfeirio eraill yn ogystal â'r Datganiad hwn wrth lunio, darparu ac adolygu cyrsiau. Gallai'r rhain gynnwys gofynion sydd wedi eu pennu gan gyrff PSRh a disgwyliadau gan ddiwydiant neu gyflogwyr. Yn 2024, cyhoeddodd QAA ddiweddariad i'r Cod Ansawdd, a fydd yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio'r Datganiad hwn.

Mae esboniadau ar gael o dermau anghyfarwydd sydd wedi eu defnyddio yn y Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn Rhestr Termau QAA. Mae ffynonellau gwybodaeth am ofynion ac enghreifftiau o arweiniad ac arferion da wedi eu cyfeirio o fewn y Datganiad lle bo'n briodol.

# 1 Cyd-destun a dibenion gradd mewn Gwaith Cymdeithasol

1.1 Mae astudio ac ymarfer gwaith cymdeithasol yn y DU yn adlewyrchu egwyddorion allweddol y diffiniad byd-eang o'r proffesiwn gwaith cymdeithasol ('Global Definition of the Social Work Profession', Ffederasiwn Rhyngwladol y Gweithwyr Cymdeithasol [International Federation of Social Workers, IFSW] 2014):

> "Mae gwaith cymdeithasol yn broffesiwn lle mae arferion yn cael eu dysgu yn y gwaith a hefyd yn faes academaidd sy'n hyrwyddo newid a datblygiad cymdeithasol, cydlyniad cymdeithasol, a grymuso a rhyddhau pobl. Mae egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol, cyfrifoldeb ar y cyd a pharch am amrywiaethau, yn ganolog i waith cymdeithasol. Mae gwaith cymdeithasol, sydd wedi ei danategu gan ddamcaniaethau gwaith cymdeithasol, gwyddorau cymdeithasol, dyniaethau a gwybodaeth frodorol, yn ymgysylltu â phobl a strwythurau er mwyn ymdrin â heriau bywyd a gwella llesiant."

1.2 Mae'r Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn amlinellu map ar gyfer addysg Gwaith Cymdeithasol sydd wedi ei thanategu gan ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant ac arferion moesegol a myfyriol. Mae'n hyrwyddo dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu cymdeithas a phobl sydd â phrofiadau y maent yn byw drwyddynt ar hyn o bryd neu wedi byw drwyddynt, a sut i ymateb i ostwng risgiau a gwella llesiant.

1.3 Mae cymwysterau proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol yn y DU wedi eu cysylltu â lefel benodol o gyflawniad academaidd a gallent gael eu cyflawni drwy astudiaeth ar lefel israddedig neu ôl-raddedig. Pan gyfunwyd dyfarniadau academaidd a phroffesiynol yn y gorffennol sefydlwyd gradd baglor gydag anrhydedd fel y cymhwyster isaf oedd yn ofynnol er mwyn bod yn weithiwr cymdeithasol yn y DU.

1.4 Cafodd deddfwriaeth ei phasio ar draws y DU o 2000 ymlaen oedd yn sefydlu cyrff rheoleiddio ym maes gwaith cymdeithasol ac yn cyflwyno cofrestriad statudol gweithwyr cymdeithasol. Mae amddiffyniad cyfreithiol i'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol', ac mae'n anghyfreithlon ei ddefnyddio heblaw bod person wedi ei gofrestru gyda'r cyrff rheoleiddio perthnasol gwlad-benodol hyn:

- Cymru: Gofal Cymdeithasol Cymru
- Lloegr: Gwaith Cymdeithasol Lloegr
- Gogledd Iwerddon: Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon
- Yr Alban: Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban.

1.5 Mae'r cyrff rheoleiddio'n cymeradwyo cyrsiau Gwaith Cymdeithasol ac yn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol proffesiynol wedi eu rheoleiddio er mwyn cynnal safonau uchel a diogelu'r cyhoedd.

1.6 Mae'r safonau a'r disgwyliadau sydd wedi eu gosod gan gyrff rheoleiddio perthnasol yn hysbysu ac yn dylanwadu'n sylweddol ar strwythur a chynnwys y cwricwlwm ac asesiad ar gyfer graddau Gwaith Cymdeithasol.

## Dibenion a nodweddion gradd mewn Gwaith Cymdeithasol

1.7 Am fod gwaith cymdeithasol yn faes academaidd a weithredir drwy ymarfer proffesiynol, mae'n wahanol i feysydd eraill oherwydd ei ffocws ar lywio drwy sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth i hyrwyddo a diogelu llesiant unigolion a llesiant ar y cyd. Un o brif nodweddion addysg Gwaith Cymdeithasol yw ei bod yn cwmpasu astudiaeth integredig am werthoedd, sgiliau a gwybodaeth arbenigol ynghyd â gweithredu ymchwil yn feirniadol i hysbysu dealltwriaeth ac i dywys camau gweithredu, myfyrio a gwerthuso. Mae'r cwricwlwm a'r arferion yn esblygu ac yn addasu'n barhaus mewn ymateb i heriau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, galwadau polisi lles cymdeithasol cyfoes, arferion a deddfwriaeth, ac mewn ymateb i ganfyddiadau ymchwil.

1.8 Gwneir gwaith cymdeithasol mewn ystod amrywiol o leoliadau, gan adlewyrchu amrywiaeth a chymhlethdod y gymdeithas gyfoes. Mae'r berthynas ddynamig rhwng cymdeithas, y wladwriaeth, a'r proffesiwn yn parhau'n sylfaenol i rôl gwaith cymdeithasol o ran cefnogi unigolion sydd wedi eu heffeithio gan drawma a'r rhai sydd mewn angen neu dan risg. Am eu bod yn gweithredu mewn cyd-destunau sy'n nodweddiadol am eu hansicrwydd, eu cymhlethdod a'u hamwysedd, mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol fod â'r sgiliau a'r wybodaeth i lywio drwy'r heriau hyn yn effeithiol. Mewn rhai sectorau, mae gweinyddu'r gwaith cymdeithasol yn cynnwys datblygu deddfwriaeth a pholisi cymdeithasol. Mae disgwyl i weithwyr cymdeithasol hefyd ymgysylltu'n feirniadol â dadleuon parhaus yn ymwneud â natur, cwmpas a phwrpas y proffesiwn, a dangos y gallu i ddadansoddi, addasu i, rheoli ac arwain prosesau o newid yn y pen draw.

1.9 Yn gynyddol, gwneir gwaith cymdeithasol mewn cyd-destun rhyng-asiantaethol a/neu amlasiantaeth, gan olygu bod angen i weithwyr cymdeithasol gydweithio ag eraill i gyflawni amcanion rhyngddisgyblaethol ac ar draws proffesiynau. I fod yn effeithiol mewn amgylcheddau o'r fath, mae gan raddedigion ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau gwahanol y gweithwyr proffesiynol a'r sefydliadau lles cymdeithasol sy'n gweithredu yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, annibynnol a phreifat a datblygu sgiliau mewn arferion cydweithredol effeithiol.

1.10 Mae natur Gwaith Cymdeithasol fel maes academaidd sydd wedi ei weithredu mewn cyd-destun proffesiynol yn golygu bod yr ymarfer yn elfen hanfodol a chraidd o ddysgu. Defnyddir y term 'ymarfer' yn y Datganiad hwn i gwmpasu dysgu sydd nid yn unig yn digwydd mewn lleoliadau gwaith proffesiynol (y cyfeirir atynt weithiau fel lleoliad), ond hefyd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd dysgu profiadol eraill, yn cynnwys gweithgaredd wedi ei seilio yn y dosbarth a allai fod wedi eu cefnogi neu eu darparu hefyd gan bobl gyda phrofiad y maent yn byw drwyddo ar hyn o bryd neu brofiad y maent wedi byw drwyddo yn y gorffennol.

1.11 Mae cynllun a chynnwys y cwrs a'r gofyniad i ddysgu ymarferion hefyd wedi eu hysbysu gan ofynion y corff rheoleiddio perthnasol.

## Tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

1.12 Mae ystyriaeth o degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (TCAC) yn cwmpasu ystod eang o nodweddion hunaniaeth, yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, hil/ethnigrwydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chredo, anabledd (yn cynnwys pobl niwroamrywiol), oed, a chefndir cymdeithasol-economaidd. Cydnabyddir bod nifer o wahanol fathau o wahaniaethau a bod y rhain, yn rhannol, wedi eu hadlewyrchu mewn safonau a osodir gan y cyrff sy'n gyfrifol am reoleiddio gwaith cymdeithasol, ac mewn dyletswyddau cydraddoldeb cyfreithiol ond yn mynd y tu hwnt i hynny i gydnabod croestoriadedd ar draws y boblogaeth myfyrwyr a staff. Mae TCAC yn gysyniad canolog ymarfer gwaith cymdeithasol sydd wedi ei ymwreiddio o fewn diwylliant ac ymarfer y maes hwn.

1.13 Wrth greu cymuned ddysgu gynhwysol, gall darparwyr ddefnyddio egwyddorion arweiniol ar gyfer ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gall darparwyr gynnwys arferion gwrth-wahaniaethol a gwrthorthrymol yn eglur, a hefyd werthoedd a moeseg gwrth-hiliol i mewn i'w harferion addysgu, adnoddau a chwricwla. Mae pwyntiau cyfeirio allweddol yn cynnwys:

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Y Nodweddion Gwarchodedig a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon
- Gwaith Cymdeithasol a Hawliau Dynol.

1.14 Mae gan ddarparwyr cyrsiau ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer eu dysgwyr er mwyn darparu amgylchedd dysgu hygyrch sy'n agored i bawb, yn cynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r dull hwn yn alinio â diffiniad Ffederasiwn Rhyngwladol y

Gweithwyr Cymdeithasol (International Federation of Social Workers, IFSW) o waith cymdeithasol, ac yn arbennig "egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol, cyd-gyfrifoldeb a pharch am amrywiadau'n ganolog i waith cymdeithasol" yn ogystal â safonau proffesiynol perthnasol.

1.15 Mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn addysgu, rhoi sgiliau a grymuso myfyrwyr ac addysgwyr i ystyried eu hunaniaeth eu hunain yn nhermau croestoriadedd, natur rhyng-gysylltiedig categorïau cymdeithasol fel hil/ethnigrwydd, dosbarth a rhywedd, a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu safbwynt a'u dealltwriaeth o unigolion ac o wahanol grwpiau cymdeithasol. Mae darparwyr cyrsiau'n ymrwymedig i ehangu mynediad a chyfranogaeth i symud ymlaen tuag at amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol i bawb, un sy'n ceisio pontio'r bylchau a gwella cyfleoedd i ffynnu a gwireddu eu potensial. I gyflawni hyn, gall y darparwyr cyrsiau ddatblygu diwylliant a chwricwlwm sy'n hyrwyddo meddwl beirniadol a gwerthusiad cyfannol o faterion cymdeithasol, ac sy'n mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn dyfarnu. Mae'r dull hwn yn cynnwys gwerthuso beirniadol a defnyddio cysyniadau ac iaith sy'n berthnasol i TCAC. Mae'r canlynol yn esiamplau o themâu trawstoriadol sy'n siapio cwricwla gwaith cymdeithasol, dysgu, addysgu ac asesu ac a fydd yn ddefnyddiol i'w cynnwys wrth alinio cyrsiau Gwaith Cymdeithasol:

- gwrth-wahaniaethu, yn cynnwys ar sail anabledd
- gwrth-orthrwm
- gwrth-hiliaeth
- perthyn
- cyfiawnder hinsawdd
- gostyngeiddrwydd diwylliannol
- dad-drefedigaethu'r cwricwlwm
- anghydraddoldebau rhywedd
- hunaniaeth a grym
- croestoriadedd
- caethwasiaeth fodern
- niwroamrywiaeth
- tlodi.

1.16 Gan gydnabod y rôl y mae gwaith cymdeithasol yn ei chwarae mewn gorthrwm, mae gweithlu cynhwysol a chynrychiadol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth wraidd addysg Gwaith Cymdeithasol effeithiol. Mae gwneud y proffesiwn yn fwy amrywiol a hyrwyddo cyfranogaeth ehangach yn gwella cynrychiolaeth. Mae angen ystod eang o randdeiliaid ac addysgwyr i weithio'n gynhwysol ac yn effeithiol gyda'r myfyrwyr i gyd. Mae amrywiaeth o staff mewn lleoliadau academaidd ac ymarferol yn integrol i gyflawni cyfrifoldebau moesegol, yn arbennig mewn diogelu myfyrwyr a phobl gyda phrofiadau y maent yn byw drwyddynt ar hyn o bryd neu wedi eu cael. Gan ddefnyddio synnwyr o'r hunan, gellir defnyddio hunanymwybyddiaeth a hunaniaeth i gefnogi myfyrwyr i adnabod a myfyrio ar eu rhwystrau a'u hanrhydeddau byw eu hunain.

1.17 Mae gan ddarparwyr cyrsiau a lleoliadau ymarferol ddyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr er mwyn darparu amgylchedd dysgu hygyrch sy'n agored i bawb, yn cynnwys y rhai gyda nodweddion gwarchodedig. Mae rhagor o arweiniad ar gael am greu cymunedau sy'n dysgu pwnc cynhwysol yn 'Creating Inclusive Subject Learning Communities' QAA (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd).

1.18 Dyma rai esiamplau o'r ffyrdd y mae cyrsiau a darparwyr yn ystyried tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu cymuned ddysgu:

- dathlu cyfoeth gwahaniaethau diwylliannol ac unigol, a'r gwerth a ychwanegir ganddynt
- gweithio'n gyfreithlon ac yn foesegol, gan roi ystyriaeth ddyledus i nodweddion gwarchodedig
- deall safbwyntiau gwahanol
- lliniaru er mwyn darparu ar gyfer anfanteision drwy ymgorffori addasiadau rhesymol, er enghraifft asesiadau amgen

- datblygu cynlluniau dysgu unigol ac wedi'u personoli
- cynnwys myfyrwyr yn y broses o greu'r cwricwlwm ar y cyd
- caniatáu cofnodi cynnwys syncronaidd
- creu mannau diogel i fyfyrwyr rannu profiadau heb ofn neu feirniadaeth
- bod â systemau a phrosesau yn eu lle i fyfyrwyr godi problemau neu rannu profiadau o wahaniaethu neu orthrwm.

Mae esiamplau pellach yn yr adran am Hygyrchedd isod.

1.19 I feithrin arferion proffesiynol cryf, mae darparwyr cyrsiau'n ymwreiddio arferion gwrth-wahaniaethol a gwrth-orthrwm clir, ynghyd â gwerthoedd a moeseg gwrth-hiliol, yn y canlynol:

- cynllun y cwricwlwm
- cynnwys y cwrs
- y ddarpariaeth ddysgu ac addysgu
- asesiad ac adborth.

1.20 Mae'n fuddiol i gyrsiau adnabod, herio a chwalu gorthrwm, gwahaniaethu a hiliaeth o bob math yn weithredol ac yn fwriadol, yn cynnwys hiliaeth strwythurol, sefydliadol, rhyng-bersonol ac wedi'i fewnoli. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad penodol a diamwys i ymdrin â hiliaeth yn erbyn pobl Dduon a ffurfiau unigryw o orthrwm sy'n effeithio ar bobl o gefndiroedd ethnig mwyafrifoedd a lleiafrifoedd byd-eang eraill.

1.21 Dyma rai esiamplau posibl o'r ffyrdd y gallai cyrsiau wneud hyn:

- datblygu cwricwlwm sy'n ymgysylltu'n feirniadol â hanes a gwireddau cyfoes gorthrwm, gwahaniaethu a hiliaeth, trefedigaethedd ac ymerodraeth a'u hetifeddiaethau parhaus ym maes gwaith cymdeithasol a chymdeithas ehangach y DU, er enghraifft drwy integreiddio safbwyntiau a gwybodaeth gan ysgolheigion, actifyddion, ymarferwyr pobl Dduon a mwyafrifoedd byd-eang a phobl gyda phrofiad byw
- sicrhau bod dulliau addysgu ac asesu'n gynhwysol, diwylliannol ymatebol, gwrthorthrymol ac yn cynnwys mathau amrywiol o wybodaeth, hunaniaeth a phrofiad byw - mae hyn yn cynnwys gweithio'n weithredol i ddad-drefedigaethu arferion addysgol
- sicrhau nad yw myfyrwyr o gefndiroedd Du a mwyafrifoedd byd-eang yn cael eu gweld drwy lens dioddefwr neu ddiffyg yn unig, ond fel pobl sydd â phrofiadau a systemau gwybodaeth cyfoethog ac amrywiol, a thrwy hynny alluogi i'w safbwyntiau gael eu clywed, eu parchu a'u defnyddio i siapio cynnwys, darpariaeth a pholisi rhaglen
- monitro ac ymdrin yn weithredol â chyflawniadau gwahaniaethol
- darparu mecanweithiau diogel, hygyrch ac atebol i adrodd am broblemau ac ymdrin â nhw, gyda chynlluniau gweithredu clir a dilyniant, er enghraifft trwy ddefnyddio 'Shades of Bias', sef templed astudiaeth achos a luniwyd i alluogi myfyrio beirniadol ar y ffordd y mae gwahaniaethu, gorthrwm a hiliaeth yn ymddangos ym maes gwaith cymdeithasol a thu hwnt
- meithrin amgylchedd dysgu lle mae gwerthoedd gwrth-orthrwm, gwrth-wahaniaethu a gwrth-hiliaeth yn cael eu modelu a'u hymwreiddio
- bod ag ymrwymiad i dîm cynhwysol, er enghraifft drwy gydnabod rôl hollbwysig staff Du a mwyafrifoedd byd-eang mewn siapio a darparu addysgeg gynhwysol.

## Hygyrchedd ac anghenion myfyrwyr ag anableddau

1.22 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr addysg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ar gyfer cyrsiau yng Nghymru, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod y safonau ar gyfer hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg mewn addysg a gofal cymdeithasol. Mae Gorchymyn Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2005 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr addysg yng Ngogledd Iwerddon. Gall darparwyr cyrsiau fabwysiadu dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol, lle disgwylir i fyfyrwyr gydag anableddau,

yn cynnwys y rheiny sydd â niwroamrywiaeth, wynebu problemau hygyrchedd addysgu, dysgu, asesu a phrofiad ehangach y myfyrwyr.

1.23 Sicrhau bod amgylcheddau dysgu ac ymarfer hygyrch nid yn unig yn oblygiad cyfreithiol, ond hefyd yn adlewyrchiad o werthoedd craidd y proffesiwn gwaith cymdeithasol. Mae'n gyfrifoldeb a ddefnyddir yn weithredol ac a gefnogir gan yr holl randdeiliaid sy'n cymryd rhan mewn addysgu a hyfforddi gweithwyr cymdeithasol.

1.24 Gellir llunio cyrsiau i roi lle i fyfyrwyr gyda gofynion unigol, gan sicrhau bod hygyrchedd wedi ei ymwreiddio yng nghynllun y cwricwlwm a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Disgwylir i ddarparwyr cyrsiau wneud addasiadau rhesymol disgwyliedig i addysgu, dysgu ac asesu, p'un a yw hynny ar y campws, ar-lein neu mewn lleoliadau ymarfer, er mwyn galluogi i'r holl fyfyrwyr gyflawni a dangos y deilliannau dysgu a fwriedir.

1.25 Mae cyrsiau'n ymdrechu i sicrhau mynediad cyfartal gan hefyd gynnal safonau ymarferion ac academaidd trwyadl a gwerthuso parodrwydd ar gyfer arfer proffesiynol drwy:

- fod â pholisïau a gweithdrefnau yn eu lle i gefnogi addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr yn ystod y broses fynediadau
- fod â pholisïau a gweithdrefnau i ymdrin â dysgu sefydliadol a'r dysgu a wnaethpwyd yn ymarferol, i asesu anghenion penodol, dogfennu cynlluniau a gwneud addasiadau rhesymol
- fod â ffyrdd clir o gyfathrebu problemau a meysydd o bryder, yn cynnwys trefnau cwyno ac apelio
- sgrinio dysgu ymarferol ar gyfer safonau iechyd a diogelwch a hygyrchedd a gwneud addasiadau rhesymol fel y bo'r angen
- fod yn hygyrch i bob myfyriwr - wyneb yn wyneb, mewn lleoliadau ymarfer ac yn ddigidol, gan wneud addasiadau rhesymol fel y bo'r angen i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu defnyddio ac elwa o'r cymorth a gynigir
- sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at adnoddau a thechnoleg dysgu sy'n cefnogi eu dysgu unigol ac, os oes gan y myfyriwr anghenion dysgu, bod addasiadau'n cael eu dogfennu a'u gweithredu yn unol â hynny
- ymgorffori'n eglur unrhyw arferion gwrth-wahaniaethu, gwrthorthrymol a gwerthoedd a moeseg gwrth-hiliol yn eu harferion addysgu, adnoddau a chwricwla
- sicrhau hygyrchedd mewn perthynas â chwricwlwm a chynnwys drwy wneud addasiadau rhesymol lle bo'r gofyn fel bod gan fyfyrwyr gynlluniau clir sy'n dogfennu anghenion cymorth unigol
- gynnwys amrywiaeth eang o strategaethau asesu
- fod yn effro i rwystrau a gwaharddiadau a chefnogi myfyrwyr i'w goresgyn, er enghraifft tlodi, yn cynnwys tlodi digidol, a chyfeirio myfyrwyr tuag at gefnogi gwasanaethau
- ddarganfod atebion posibl i broblemau hygyrchedd a allai gael eu profi gan grwpiau wedi'u hymyleiddio, fel cynnig bwrsariaethau a benthyg gliniaduron
- fabwysiadu dull hyblyg a thrafod natur benodol addasiadau rhesymol gyda myfyrwyr unigol i sicrhau eu bod yn addas iddyn nhw fel unigolion ond hefyd yn dal i ateb gofynion cyrff proffesiynol a/neu reoleiddio - gallai hyn gynnwys mathau amgen o asesiad sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddangos cyflawniad deilliannau dysgu.

## Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy

1.26 Gall gweithwyr cymdeithasol gyfrannu at unrhyw faes o ddatblygiad cynaliadwy, megis helpu pobl i gysylltu eto â'r amgylchedd naturiol a gostwng anghydraddoldeb ar lefel unigol a byd-eang. Maen nhw hefyd yn chwarae rôl hanfodol ar y rheng flaen yn cefnogi pobl a effeithiwyd gan yr argyfwng hinsawdd, yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i reoli trychineb, gweithio gyda phobl sydd wedi eu heffeithio'n anghyfartal gan newid hinsawdd, a chefnogi'r rhai sy'n profi eco-bryder. Mae'r ffaith bod gwaith cymdeithasol yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yn elfen sydd wrth wraidd herio anghydraddoldeb, tlodi a dadleoliad, y gallai rhai ohonynt fod yn

gysylltiedig â dinistr amgylcheddol. Mae gwaith cymdeithasol yn cyfrannu at ymdrin â heriau a brofwyd yn unigol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang drwy ddadansoddi ac esbonio profiadau ac ymddygiad yng nghyd-destun amgylcheddau pobl.

> "Mae gwaith cymdeithasol yn cofleidio hawliau cenedlaethau cyntaf, ail a thrydydd. Mae hawliau'r genhedlaeth gyntaf yn cyfeirio at hawliau sifil a gwleidyddol fel rhyddid i lefaru a chydwybod a rhyddid rhag artaith a thynnu hawliau pobl; mae ail genhedlaeth yn cyfeirio at hawliau cymdeithasol-economaidd a diwylliannol sy'n cynnwys yr hawliau i lefelau rhesymol o addysg, gofal iechyd, a thai a hawliau iaith leiafrifol; ac mae hawliau trydedd genhedlaeth yn canolbwyntio ar y byd naturiol a'r hawl i fioamrywiaeth rhywogaethau a chydraddoldeb rhyng-genedlaethol. Mae'r hawliau hyn yn eu hatgyfnerthu ei gilydd ac yn rhyng-ddibynnol, ac maen nhw'n rhoi lle i hawliau unigol a hawliau ar y cyd". (IFSW)

1.27 Mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn datblygu graddedigion fel dinasyddion byd-eang sy'n deall effaith materion hinsawdd ac amgylcheddol, yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i ddadleoliad, tlodi, ffyniant economaidd, cyfiawnder cymdeithasol a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu rhyng-berthnasoedd.

1.28 Mae gwaith cymdeithasol yn broffesiwn wedi ei seilio ar werthoedd, sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol, meddwl beirniadol, cydweithredu, grymuso ac arferion wedi eu seilio ar berthynas, ymysg egwyddorion eraill. O ganlyniad, anogir myfyrwyr i fyfyrio'n feirniadol ar eu gweithrediadau i gydnabod eu heffeithiau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a chael dealltwriaeth ddofn o'r ffactorau hyn. Cânt eu hannog i lywio drwy sefyllfaoedd cymhleth mewn ffordd gynaliadwy, gan archwilio ac ymgysylltu mewn prosesau cymdeithasol-wleidyddol i gefnogi datblygiad cynaliadwy.

1.29 Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ADC) yn offeryn allweddol i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy (Nodau DC) y Cenhedloedd Unedig. Nodau DC yw'r glasbrintiau i sicrhau dyfodol gwell a mwy cynaliadwy. Maen nhw'n mynd i'r afael â'r heriau byd-eang yr ydym yn eu hwynebu, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thlodi, anghydraddoldeb, yr argyfwng hinsawdd, diraddiant amgylcheddol, heddwch a chyfiawnder. Mae nifer o Nodau DC y Cenhedloedd Unedig yn nodau gwaith cymdeithasol:




UNESCO a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

1.30 Mae UNESCO yn nodi galluoedd allweddol sy'n hanfodol ar gyfer ymdrin â'r Nodau DC, yn ogystal â dulliau dysgu ac addysgu i gyflawni'r rhain. Mae'r galluoedd allweddol yn ymdrin â ffyrdd o feddwl (systemau, dyfodol, beirniadol); ffyrdd o ymarfer (yn strategol, ar y cyd, integredig); a ffyrdd o fod (hunanymwybyddiaeth, normadol, myfyriol). Maen nhw wrth galon ymarfer gwaith cymdeithasol a gellir eu hymwreiddio mewn addysg cymhwyso, maen nhw'n amlwg yng nghynllun cyrsiau a modiwl, ac maen nhw wedi eu cynnwys mewn asesiadau.

1.31 Mae ADC yn integreiddio cynnwys fel newid hinsawdd, tlodi a defnydd cynaliadwy yn y cwricwlwm. Mae'n hyrwyddo addysgu myfyriwr-ganolog rhyngweithiol mewn lleoliadau priodol. Mae ADC yn annog symudiad o addysgu i ddysgu. Mae'n gofyn am addysgeg drawsnewidiol sy'n gwyro at weithredu, sy'n cefnogi dysgu hunangyfeiriedig, cyfranogaeth a chydweithredu, dulliau o ymdrin â phroblemau, rhyng- a thraws-ddisgyblaeth a chysylltu dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r dulliau addysgol hyn, sy'n ganolog i addysg Gwaith Cymdeithasol, yn ei gwneud hi'n bosibl i ddatblygu galluoedd allweddol er mwyn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

1.32 Mae Ffederasiwn Rhyngwladol y Gweithwyr Cymdeithasol (IFSW) yn cadarnhau ac yn cefnogi Nodau DC y Cenhedloedd Unedig, gan gydnabod eu momentwm a'r cyfleoedd y maent yn eu creu i feithrin newid byd-eang trawsffurfiadol cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Gall addysgwyr sicrhau bod rhaglenni wedi eu strwythuro i ddatblygu graddedigion sy'n barod ar gyfer heriau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol lleol a byd-eang. Fel y mae canllawiau ADC a gyhoeddwyd gan QAA/Advance HE yn 2021 yn ei nodi "Gellir deall [ADC] fel lens sy'n caniatáu i ni edrych yn feirniadol ar sut le yw'r byd, a dychmygu sut y gallai fod, ac mae'n rhoi'r sgiliau i ni i wireddu'r weledigaeth honno" (tudalen 8). Gall ADC fod yn rhan integrol o lunio cwricwla a rheoli a darparu cyrsiau. Mae addysgwyr sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer y dyfodol, yn gallu cofleidio ADC a sicrhau bod gan bob person graddedig nid yn unig y wybodaeth a'r sgiliau ond hefyd y nodweddion i ymdopi - a ffynnu yn ddelfrydol - wrth wynebu heriau niferus yn y 21ain ganrif.

1.33 Yn ganolog i Agenda Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig mae ymrwymiad craidd i gynhwysiant gan hefyd sicrhau 'nad oes unrhyw un wedi'i adael ar ei ôl'. Mae'r ymrwymiad hwn wedi ei adlewyrchu yn y pwyslais ar ystyriaethau moesegol o fewn y maes, cynllun y cwrs a'r modiwl, profiad y myfyrwyr, a chynnwys y cwricwlwm. Mae cyfraniadau gwaith cymdeithasol yn hanfodol i ymdrin â heriau datblygiad cynaliadwy, yn cynnwys gweithredu brys i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd, a chynrychioli cyfle i fyfyrwyr a graddedigion ddefnyddio eu sgiliau gwaith cymdeithasol, eu gwybodaeth a'u hymddygiadau mewn ymateb i'r problemau a brofir gan gymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

## Addysg cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth

1.34 Mae addysg cyflogadwyedd, mentergarwch ac entrepreneuriaeth yn cefnogi ymddygiadau, nodweddion a galluoedd sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y myfyriwr unigol o ran eu dewis o gyrchnod cyflogaeth a llwyddiant gyrfaol yn y dyfodol. Mae'n paratoi myfyrwyr ar gyfer amgylcheddau newidiol ac yn darparu gwell effaith drwy gyfleoedd dysgu seiliedig ar ymarfer a gweithgareddau sy'n adeiladu cysylltiadau rhwng darparwyr cyrsiau a sefydliadau allanol.

1.35 Mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn paratoi graddedigion ar gyfer amgylcheddau sy'n newid ac yn darparu gwell effaith drwy ddysgu seiliedig ar ymarfer mewn lleoliadau cyflogaeth a gweithgareddau sy'n adeiladu cysylltiadau rhwng sefydliadau academaidd a sefydliadau allanol.

1.36 Y tu hwnt i gyflogaeth, mae addysg mentergarwch yn darparu galluoedd i helpu graddedigion i arwain bywyd proffesiynol gwobrwyol, hunan-benderfynol, mewn sefyllfa dda er mwyn ychwanegu gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i gymdeithas drwy eu gyrfaoedd.

1.37 Mae datblygu meddylfryd o fentergarwch mewn gwaith cymdeithasol yn golygu:

- dod yn ymwybodol o ddatblygiad personol a phroffesiynol parhaus a sut mae hyn yn siapio hunaniaeth broffesiynol gwaith cymdeithasol
- cael eich ysgogi a chyflawni uchelgeisiau a nodau personol a phroffesiynol yn ystod addysg Gwaith Cymdeithasol a deall sut i gynnwys hyn mewn arferion proffesiynol
- dod yn hunan-drefnus, hyblyg ac ymatebol yn wyneb heriau, newidiadau a gyda gofynion sy'n cystadlu
- bod yn chwilfrydig am bosibiliadau newydd ar gyfer creu gwerth a chael effaith gadarnhaol
- bod yn ymatebol i broblemau a chyfleoedd drwy wneud cysylltiadau newydd yn y gymuned gwaith cymdeithasol, ac yn ehangach
- dod yn dda am fod yn greadigol er mwyn cyflawni canlyniadau
- dod yn oddefgar o nodweddion sy'n berthnasol i waith cymdeithasol, yn cynnwys ansicrwydd, amwysedd, risg a methiant
- dod yn ymwybodol o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd
- bod yn sensitif i werthoedd cyfiawnder cymdeithasol, moeseg, cynrychiolaeth gymdeithasol, cynhwysiant a materion amgylcheddol.

1.38 Profiadau o gyrsiau:

- cynnig y cyfle i fyfyrwyr a graddedigion archwilio amrywiaeth o lwybrau gyrfaol proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, datblygiad gwasanaethau, addysg (yn cynnwys addysg ymarfer) ac ymchwil
- darparu ffyrdd ymarferol o ddatblygu a chymhwyso ymddygiadau, nodweddion a sgiliau mentergarwch yn unigol ac ar y cyd
- sicrhau bod gan fyfyrwyr ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, ymddygiadau a nodweddion newydd mewn perthynas â menter a mentergarwch
- gwella cyflogadwyedd a pharatoi graddedigion i wneud ymarfer gwaith cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau, yn cynnwys y rhai sydd heb ddyletswyddau statudol
- paratoi graddedigion ar gyfer yr amgylcheddau sy'n newid a'r ansicrwydd a brofir yn aml mewn gwaith cymdeithasol.

1.39 Gall ymddygiadau gynnwys dangos y gallu i weithredu a chymryd cyfrifoldeb am eich effeithiolrwydd eich hun; cyfathrebu ar wahanol lefelau gyda sefydliadau, unigolion a grwpiau; dangos y gallu i addasu i gyd-destunau a chyfleoedd sy'n newid; meddwl yn strategol; gwneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn wedi eu hysbysu gan sail dystiolaeth gadarn; cydbwyso a rheoli risg; ceisio cyngor a chymorth pan fo'r gofyn; gweithio'n gydweithredol ac yn annibynnol lle bo'r gofyn.

1.40 Mae nodweddion yn gallu cynnwys bod yn fyfyriol, adweithiol, hyblyg ac addasadwy: bod yn broffesiynol, chwilfrydig a meddwl agored i gyfleoedd a chyd-destunau sy'n dod i'r amlwg; bod yn llawn dychymyg ac yn arloesol; bod yn rhagweithiol a bod â'r hyder i weithredu ar eich liwt eich hun; bod yn benderfynol, hyblyg a dyfalbarhaus i weithio gyda heriau; bod â diddordeb mewn rhwydweithio a gwneud i bethau ddigwydd a bod â'r meddylfryd ar gyfer ymarfer proffesiynol.

1.41 Gall y sgiliau ar gyfer ymarfer proffesiynol gynnwys cynllunio gyrfaol; meddwl strategol; sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol lefel uwch; sgiliau gwneud penderfyniadau a datrys problemau creadigol; sgiliau rheoli prosiectau; cyllid a sgiliau cyllidebu; sgiliau ysgrifennu adnoddau; sgiliau negodi a dylanwadu; deall systemau a phrosesau; dealltwriaeth hyderus a defnyddio fframweithiau cyfreithiol a moesegol; dangos y gallu i ymarfer yn broffesiynol ac yn foesegol; ac ymwreiddio llythrennedd digidol.

1.42 Mae datblygu cymhwysedd digidol a sgiliau trosglwyddadwy'n cynnwys defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu syniadau'n greadigol, yn arloesol ac yn hygyrch er mwyn gwella llwyddiant academaidd a chyflogadwyedd.

1.43 Mae dysgu am, a chael profiad o, fenter a mentergarwch yn gallu dod â nifer o fuddion. Mae'n meithrin hyder 'gallaf wneud', gan adeiladu ar gryfderau, gwerthoedd a chymhelliant, mae'n rhoi safbwyntiau amgen i fyfyrwyr ar eu hopsiynau gyrfaol a llwybrau i mewn i waith cymdeithasol, ac mae'n helpu myfyrwyr i ddeall bod gwaith cymdeithasol yn cael ei wneud mewn amrywiaeth o leoliadau, yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, lleol, cenedlaethol neu ryngwladol.

1.44 Mae sgiliau mentergarwch, fel arwain pobl eraill, gwaith tîm a'r gallu i ddangos menter a meddwl gwreiddiol, ochr yn ochr â hunanddisgyblaeth mewn cychwyn tasgau a'u cwblhau nhw erbyn dyddiad cau, yn nodweddion hanfodol sydd wedi eu pennu gan gyflogwyr fel blaenoriaethau wrth arfer gwaith cymdeithasol. Yn y pendraw, y nod yw bod graddedigion yn dod yn weithwyr cymdeithasol proffesiynol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol; hynny yw, mae graddedigion sy'n feddylwyr beirniadol, meddwl agored, ymatebol, hyblyg, yn gallu cyfathrebu ar amrywiaeth o lefelau, negodi a dylanwadu ar wneud penderfyniadau ac yn gallu ymuno â'r proffesiwn gwaith cymdeithasol gyda chymhwysedd a hyder.

## Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol

1.45 Mae mathau cyfredol o ddeallusrwydd artiffisial, a mathau sy'n dechrau dod i'r amlwg, yn cynnwys deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (DA cynhyrchiol), wedi dod yn rhannau integrol o'r gymdeithas fodern. Mae'r technolegau hyn nid yn unig yn tanategu ond hefyd yn siapio'n weithredol y perthnasoedd cymdeithasol, y profiadau byw unigol, y drafodaeth gymdeithasol-wleidyddol, a'r nifer o elfennau eraill o fywyd cymunedol a diwylliannol. Mae myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol yn ymwneud yn feirniadol â thechnolegau yn eu dysgu a'u harferion er mwyn sicrhau cymorth effeithiol i bobl, sy'n cyfateb â gwerthoedd gwaith cymdeithasol. Gall darparwyr cyrsiau gefnogi myfyrwyr i ddefnyddio technolegau'n gymwys ac yn feirniadol, yn gyfreithlon ac yn foesegol, ac er budd unigolion a chymunedau. Disgwylir y bydd gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau dilysrwydd ac uniondeb academaidd.

1.46 Mae nifer o ffyrdd o ymgysylltu â thechnolegau, mewn amrywiol leoedd a mannau: lleoliadau addysg uwch (neu eraill), mannau ar-lein a rhithwir, ymarfer cyd-destunau dysgu, ac eraill. Mae myfyrwyr ac addysgwyr yn ymgysylltu â thechnolegau ar lefel unigol, o fewn grwpiau cyfan, ac ar draws cymunedau a chymdeithasau, a gyda gwahanol lefelau o fynediad a hygyrchedd. Mae angen i fyfyrwyr ac addysgwyr allu llywio o amgylch y rhain o amrywiaeth o safbwyntiau, gan ddiweddaru eu gwybodaeth am dechnolegau sy'n esblygu a'u defnyddiau, a harneisio eu heffeithiau pellgyrhaeddol ar gyfer gwella dysgu ac addysgu, ymchwil, dysgu arferion, ac ymarfer gwaith cymdeithasol. Mae addysgwyr a darparwyr lleoliadau gwaith yn ymgysylltu â ffyrdd y gall technolegau rymuso a gwella bywydau pobl a chymunedau, ac adnabod, ymateb i a herio'r risgiau a'r gwahaniaethu y gallant eu creu a'u hatgyfnerthu i unigolion a grwpiau. Darperir rhagor o arweiniad a chymorth yng nghyngor ac adnoddau QAA ar DA cynhyrchiol (sydd ar gael yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd).

1.47 I sicrhau bod gwerthoedd gwaith cymdeithasol yn cael eu cynnal bob amser ar draws y dysgu a'r ymarfer, mae ymgysylltiad â thechnolegau DA cynhyrchiol yn cynnwys y canlynol:

- meddwl beirniadol cadarn a defnydd beirniadol, yn cynnwys parchu dyletswyddau cyfreithiol
- ymarfer moesegol wedi'i seilio mewn tegwch a chynhwysiant
- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a gweithio i ymdrin â gorthrwm a gwahaniaethu
- cymhwyso gwerthfawrogiad o effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol.

1.48 Disgwylir i werthoedd gwaith cymdeithasol arwain ymgysylltiad myfyrwyr ac addysgwyr â thechnoleg drwy gydol y daith ddysgu a disgwylir na fydd opsiynau digidol a thechnolegau'n disodli rhyngweithio neu berthnasoedd dynol.

# 2 Nodweddion arbennig cwrs Gwaith Cymdeithasol

## Cynllun

2.1 Mae astudio ac ymarfer gwaith cymdeithasol yn y DU yn adlewyrchu egwyddorion allweddol y diffiniad byd-eang o'r proffesiwn gwaith cymdeithasol (IFSW, 2014). Fel maes academaidd a weithredir drwy arfer proffesiynol, un o nodweddion Gwaith Cymdeithasol yw ffocws amlwg ar arferion mewn sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth i hyrwyddo a diogelu llesiant unigolion a llesiant ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd partneriaethau rhwng darparwyr (cyrsiau) addysg uwch a darparwyr gwasanaethau i sicrhau cyfranogaeth lawn cyflogwyr, ymarferwyr, academyddion ac ymchwilwyr, pobl gyda phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd neu y maent wedi eu cael, a gyda myfyrwyr mewn lleoliadau dysgu academaidd a lleoliadau dysgu arferion ac mewn prosesau asesu.

2.2 Mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn cynnwys astudiaeth integredig o wybodaeth pwnc-benodol, sgiliau a gwerthoedd a chymhwysiad beirniadol gwybodaeth o waith ymchwil i hysbysu dealltwriaeth ac i danategu gweithredu, myfyrio beirniadol a gwerthuso. Mae cyrsiau wedi eu llunio i helpu i feithrin dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol, damcaniaethol, esboniadol ac ymarferol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

2.3 Mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol wedi eu llunio i gynnig gwybodaeth i fyfyrwyr i roi'r sgiliau iddynt i weithio mewn cyd-destunau proffesiynol gydag amrywiaeth eang o unigolion, grwpiau a chymunedau. Mae'r cyrsiau hefyd yn cynnwys myfyrwyr sydd â phrofiad byw o gymorth sy'n cynnwys, er enghraifft, fyfyrwyr sydd wedi profi gofal. Mae amrywiaeth o brofiadau'n un o gryfderau allweddol y rhaglenni i gyd, gan ddarparu amgylchedd dysgu mwy dilys a chyfoethog.

2.4 Mae addysg Gwaith Cymdeithasol wedi ei gwreiddio mewn gwerthoedd a moeseg sy'n gofyn i ymarferwyr gwaith cymdeithasol gydnabod urddas yr unigolyn, ond hefyd wneud a gweithredu penderfyniadau anodd (yn cynnwys cyfyngu rhyddid) mewn sefyllfaoedd dynol sy'n cynnwys y potensial i niweidio neu i elwa. Felly, mae cyrsiau'n cynnwys astudio a gweithredu, a myfyrio'n feirniadol ar, egwyddorion moesegol a dilemâu proffesiynol fel gofyniad craidd. Mae'r cyrff rheoleiddio ymhob un o bedair gwlad y DU yn adlewyrchu hyn, ac mae'n gofyn dangos parch i bobl, anrhydeddu sefydliadau a chymunedau amrywiol a gwahanol sy'n rhan o gymdeithas, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a brwydro yn erbyn prosesau sy'n arwain at wahaniaethu, hiliaeth, ymyleiddio, anghydraddoldeb, ac eithrio cymdeithasol, sy'n effeithio ar yr unigolyn, y teulu neu gymdeithas.

2.5 Mae diffiniadau cyfoes o Waith Cymdeithasol fel pwnc gradd yn adlewyrchu ei waddol mewn amrywiaeth o bynciau academaidd a thraddodiadau ymarfer. Mae natur a chwmpas union gywir y pwnc ynddo'i hun yn fater sy'n addas i'w astudio'n ddilys a'i ddadlau'n feirniadol. Mae'r pwyntiau crynhoi isod yn berthnasol i hyn.

2.6 Mae gwaith cymdeithasol i'w gael mewn cyd-destunau lles cymdeithasol sy'n wahanol ac yn newidiol. Yn y DU mae gwahanol draddodiadau o les cymdeithasol (wedi eu dylanwadu gan ddeddfwriaeth, datblygiad hanesyddol, datganoli ac agweddau cymdeithasol) ac mae'r rhain wedi siapio addysg ac ymarfer gwaith cymdeithasol mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae'r cyd-destun rhyngwladol yn cynnwys archwilio'n feirniadol sut mae addysgwyr mewn Gwaith Cymdeithasol yn ymateb i, ac yn dysgu gan, yr heriau parhaus a wynebir gan ddinasyddion byd-eang. Mae hyn yn cynnwys gwneud archwiliad o'r ffordd y mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn paratoi myfyrwyr i weithredu fel meddylwyr beirniadol, arloeswyr ac arweinwyr, gan barchu egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol a chynhwysedd mewn tirlun cynyddol ddarniog a phegynnol.

2.7 Mae safbwyntiau sy'n cystadlu i'w cael mewn cymdeithas yn gyffredinol, ynghylch natur gwaith cymdeithasol ac am ei le a'i bwrpas. Yn anochel, mae addysg ac ymarfer gwaith cymdeithasol

yn adlewyrchu'r gwahanol safbwyntiau hyn am rôl gwaith cymdeithasol mewn perthynas â chyfiawnder cymdeithasol, gofal cymdeithasol a threfn gymdeithasol.

2.8 Mae gwaith cymdeithasol, fel arfer galwedigaethol ac fel pwnc academaidd, yn esblygu, addasu a newid mewn ymateb i ofynion a heriau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd polisi, ymarfer a deddfwriaeth lles cymdeithasol cyfoes. Mae gwaith cymdeithasol yn ymatebol i newid wrth gefnogi pobl a chymunedau. Er bod gwaith cymdeithasol yn cael ei wneud mewn amrywiaeth eang o leoliadau, mae'r berthynas rhwng cymdeithas, gwladwriaeth a gwaith cymdeithasol yn parhau'n ganolog i rôl gwaith cymdeithasol. Felly, mae angen i weithwyr cymdeithasol cymwysedig fod â'r gallu i ddeall a gweithio yn y cyd-destun hwn o ddadlau gwrthgyferbyniol ynghylch natur, cwmpas a diben gwaith cymdeithasol, a chael eu galluogi i ddadansoddi, addasu i, rheoli ac arwain yn y pen draw at brosesau o newid.

## Cyrff rheoleiddio

2.9 Fel y nodwyd yn adran 1, mae'r safonau a'r disgwyliadau a osodir gan gyrff rheoleiddio cenedlaethol perthnasol yn hysbysu ac yn dylanwadu'n sylweddol ar gynllun y cwricwlwm a'r asesiad ar gyfer graddau Gwaith Cymdeithasol.

### Cymru

2.10 Trwy Ddeddf Safonau Gofal 2000, sefydlwyd Cyngor Gofal Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, a newidiwyd hwn i Ofal Cymdeithasol Cymru yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae amddiffyniad cyfreithiol i'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' o dan adran 111 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

2.11 Mae'n rhaid i gyrsiau Gwaith Cymdeithasol gael eu cymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r gofynion proffesiynol ar gyfer gradd mewn Gwaith Cymdeithasol wedi eu cynnwys yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau Gwaith Cymdeithasol. Mae'r dyfarniad yng Nghymru wedi ei seilio ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, a'r Datganiad Meincnodi Pwnc hwn. Gall graddau Gwaith Cymdeithasol gael eu cynnig fel gradd baglor neu gymhwyster ôl-raddedig. Cyflwynir cyrsiau drwy bartneriaethau rhwng cyrff dyfarnu graddau a chyflogwyr awdurdod lleol ac maen nhw'n cynnwys dysgu academaidd a dysgu ymarferol hefyd. Mae'n rhaid i raddau Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru gael eu hysbysu gan ddeddfwriaeth gyfoes a pholisi cymdeithasol, yn ogystal â datblygiadau a gafwyd yn y rheoliadau sy'n berthnasol i Gymru a'u perthynas â chyd-destun(au) trwy'r DU gyfan.

2.12 Mae'n rhaid i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a dangos dealltwriaeth o, a'r gallu i lynu at, y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol trwy gydol eu hastudiaethau ac wrth fynd i weithio yn y maes.

### Lloegr

2.13 Trwy Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017, sefydlwyd Gwaith Cymdeithasol Lloegr fel y corff sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Mae amddiffyniad cyfreithiol i'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' o dan reoliadau 28 a 29 Rheoliadau Gweithwyr Cymdeithasol 2018.

2.14 Mae'n rhaid i gyrsiau Gwaith Cymdeithasol gael eu cymeradwyo gan Gwaith Cymdeithasol Lloegr ac mae angen i gyrsiau gyflawni'r Safonau Addysg a Hyfforddiant a chynhyrchu graddedigion sy'n gallu dangos eu bod yn cyrraedd y Safonau Proffesiynol. Mae cyrsiau a gymeradwywyd gan Waith Cymdeithasol Lloegr hefyd yn adlewyrchu'r canllawiau cwricwlwm ehangach sydd ar gael ar gyfer y proffesiwn, yn cynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad a ddiffiniwyd gan Gwaith Cymdeithasol Lloegr, a'r Datganiad Meincnodi Pwnc hwn.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn goruchwylio Gwaith Cymdeithasol Lloegr, yn ogystal ag wyth corff arall sy'n rheoleiddio'r proffesiynau iechyd a gofal yn Lloegr.

2.15 Yn dilyn cyflawni cwrs Gwaith Cymdeithasol cymeradwy, mae graddedigion yn gymwys i wneud cais i gofrestru â Gwaith Cymdeithasol Lloegr. I weithwyr cymdeithasol cofrestredig, mae ystod o Ddatganiadau Gwybodaeth a Sgiliau ôl-gymhwyso a ddefnyddir i arwain ac asesu ymarfer, er enghraifft yn ystod y Flwyddyn a Aseswyd ac a Gefnogwyd mewn Cyflogaeth, ac mae'r datganiadau hyn yn parhau i esblygu i adlewyrchu gofynion newidiol ar y proffesiwn.

## Gogledd Iwerddon

2.16 Trwy Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 2001, sefydlwyd Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon fel y corff sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithwyr cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae amddiffyniad cyfreithiol i'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' o dan adran 3 y Ddeddf hon.

2.17 Mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am oruchwylio darpariaeth addysg a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol integredig yng Ngogledd Iwerddon. Ar y cyd, y Cyngor Gofal Cymdeithasol a'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (sef yr Adran Iechyd erbyn hyn) a gynhyrchodd Fanyleb Fframwaith Gogledd Iwerddon ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol (2003), a gafodd ei hadolygu a'i diweddaru yn 2014, yna ei haddasu ymhellach yn 2015. Mae hon yn nodi un gyfres gynhwysfawr o ofynion dysgu a deilliannau dysgu ar gyfer graddau mewn Gwaith Cymdeithasol. Mae wedi ei fframio gan y safonau galwedigaethol cenedlaethol perthnasol a'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan QAA. Yn ogystal, mae nifer o ofynion dysgu a deilliannau dysgu gwahanol sy'n benodol i Ogledd Iwerddon. Mae gofyn i fyfyrwyr ddeall effaith trais gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon ar eu gwaith ac ystyried eu rôl mewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig mewn cymdeithas sydd wedi bod trwy wrthdaro.

2.18 Ers mis Medi 2004, gradd lefel anrhydedd mewn Gwaith Cymdeithasol yw'r cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig ar gyfer yr holl weithwyr cymdeithasol, swyddogion gwasanaeth prawf a swyddogion lles addysg yng Ngogledd Iwerddon. Yn dilyn cyflwyno diogelwch y teitl ar 1 Mehefin 2005, mae gofyn i bob myfyriwr Gwaith Cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol cymwysedig gofrestru gyda'r Cyngor Gofal Cymdeithasol. Mae graddedigion mewn Gwaith Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon wedi eu cofrestru gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol gyda'r amod eu bod nhw'n gwneud Blwyddyn wedi'i Hasesu mewn Cyflogaeth.

2.19 Diwygiwyd y Safonau Ymddygiad ac Ymarfer i Weithwyr Cymdeithasol yn 2015. Mae Safonau Ymddygiad ar wahân i fyfyrwyr mewn gwaith cymdeithasol. Mae'r rhain yn disgrifio ymddygiadau, agweddau a gwerthoedd disgwyliedig y rhai sy'n cofrestru ac maen nhw'n feincnod arferion da. Mae'r safonau ymarfer perthnasol ar gyfer myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol i'w cael yn y Fanyleb Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol (2015).

## Yr Alban

2.20 Trwy Ddeddf Reoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001, sefydlwyd Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (Scottish Social Services Council, SSSC) fel y corff sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn yr Alban. Mae amddiffyniad cyfreithiol i'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' o dan adran 52 y Ddeddf hon.

2.21 Mae'r cyrsiau cymwysedig i gyd mewn Gwaith Cymdeithasol yn cael eu cymeradwyo gan SSSC a sefydlwyd ym mis Hydref 2001 o dan y Ddeddf Reoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001. Ei nod yw cryfhau proffesiynoldeb, codi safonau ymarfer, a sicrhau bod y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol wedi ei hyfforddi, yn ddibynadwy ac yn fedrus. Mae'n cynnal cofrestri'r gweithlu, yn gosod y codau ymarfer, yn rheoleiddio hyfforddiant ac addysg, ac yn ymchwilio achosion lle nad yw safonau'r gweithlu wedi eu cyrraedd. Am fod y teitl 'gweithiwr cymdeithasol' wedi'i

amddiffyn gan y gyfraith, mae'n rhaid cael cymhwyster cydnabyddedig mewn Gwaith Cymdeithasol a chofrestriad gyda SSSC er mwyn gallu ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol yn yr Alban. Mae Safonau ac Egwyddorion Moesegol Addysg Gwaith Cymdeithasol a Gofynion yr Alban ar gyfer Addysg Gwaith Cymdeithasol wedi cael eu hadolygu ers cyhoeddi'r Fframwaith ar gyfer Addysg Gwaith Cymdeithasol yn 2003. Mae'n rhaid i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol gyflawni gradd anrhydedd generig mewn Gwaith Cymdeithasol, neu ddyfarniad ôl-raddedig cyfatebol, i ddod yn broffesiynol gymwysedig.

2.22 Yn dilyn cyflawni rhaglen Gwaith Cymdeithasol gymeradwy, mae graddedigion yn gymwys i gofrestru â SSSC.

## Cynnydd

2.23 Dros gwrs israddedig safonol sy'n arwain at radd gydag anrhydedd (lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF y FQHEIS) neu, os yw ar gael, radd meistr integredig (lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS), bydd myfyriwr sy'n astudio Gwaith Cymdeithasol yn symud o un lefel o astudiaeth i'r nesaf, yn unol â rheoliadau a phrosesau pob sefydliad. Fodd bynnag, disgwylir i'r myfyriwr ddysgu gwybodaeth a sicrhau arbenigedd a phrofiad ar bob lefel sy'n adeiladu tuag at y cyflawniad terfynol o ddysgu'r sgiliau trothwy pwnc-benodol a generig a restrir yn y Datganiad hwn. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys cwblhad llwyddiannus a dyfarniad credyd am yr ystod lawn o ddysgu ac asesu, yn cynnwys y cydrannau ymarfer.

2.24 Mae modd astudio Gwaith Cymdeithasol fel cwrs sy'n arwain at radd Baglor yn y Gwyddorau (BSc) neu'r Celfyddydau (BA), neu gwrs 'trawsnewid' ôl-raddedig cyfatebol, yn ogystal ag ar lefel uwch - er enghraifft, fel Diploma Ôl-raddedig (PgDip) neu fel Meistr yn y Gwyddorau (MSc neu MSci) neu'r Celfyddydau (MA). Mae'r ystod o lwybrau rhaglen yn amrywiol, yn cynnwys y rhai a wneir drwy Brentisiaeth Gradd. Bydd yr opsiynau hyn i gyd yn cynnwys dysgu ymarfer wedi'i integreiddio i'r rhaglen, i roi cyfle i fyfyrwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

2.25 Mae hyblygrwydd i gyrsiau gael eu llunio i ddefnyddio meysydd arbenigedd y darparwyr, diwylliant a ffyrdd o weithio gan hefyd gadw sylfaen eang y maes. Mae hefyd hyblygrwydd yn y cynllunio o ran sut mae Gwaith Cymdeithasol yn rhyngweithio ag ymchwil ac ymarfer mewn meysydd astudio eraill.

2.26 Mae cyrsiau wedi eu llunio i ddarparu dealltwriaeth o amrywiaeth o ddamcaniaethau, dulliau ac ymchwil arloesol a chyfoes, ac i baratoi myfyrwyr i ddefnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth gwaith cymdeithasol yn eu gwaith yn y dyfodol. Mae safbwyntiau hanesyddol a chyfoes wedi eu hintegreiddio drwy gynllun cyfan y cwrs ac maen nhw'n cynrychioli safbwyntiau diwylliannol amrywiol.

2.27 Mae dealltwriaeth foesegol, ymddygiad moesegol, cyfiawnder cymdeithasol a gwerthoedd y proffesiwn wrth wraidd gwaith cymdeithasol ac felly maen nhw'n ganolog i gynllun y cwrs. Er enghraifft, bydd yna amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn hwyluso cymhwysiad cynhwysfawr gwerthoedd a moeseg gwaith cymdeithasol mewn ymchwil, arferion proffesiynol ac ymddygiad pob dydd. Bydd myfyrwyr yn gallu cymhwyso hyn i'w sail gwerthoedd ac ymddygiad moesegol eu hunain yn ogystal â gwerthuso ymddygiad moesegol pobl eraill yn feirniadol.

## Hyblygrwydd

2.28 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, hyd cwrs llawn amser sy'n arwain at radd baglor yw tair blynedd fel arfer, ac mae wedi'i osod ar lefel 6 y FHEQ. Gall cyrsiau gradd sy'n cynnwys blwyddyn o astudio dramor neu flwyddyn ar leoliad gwaith gymryd hyd at bedair blynedd.

2.29 Yn yr Alban, hyd cwrs gradd baglor/gradd gyffredin yw tair blynedd, ac mae wedi'i osod ar lefel 9 SCQF y FQHEIS. Llunnir cwrs sy'n arwain at radd baglor gydag anrhydedd, sef y llwybr

mwyaf cyffredin i fyfyrwyr, i gynnwys pedair blynedd o astudiaeth, ac mae wedi'i osod ar lefel 10 SCQF y FQHEIS. Yn ogystal, mae gan nifer o brifysgolion yn yr Alban draddodiad hir o labelu rhai graddau academaidd israddedig penodol yn Feistr yn y Celfyddydau (MA). Mae'r teitl hwn yn adlewyrchu'r arfer hanesyddol yn yr Alban, lle gosodir MA/gradd gyffredin ar lefel 9 SCQF y FQHEIS, ac MA gydag anrhydedd ar lefel 10.

2.30 Fel arfer, mae cyrsiau gradd meistr integredig yn cynnwys astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf pedair blynedd academaidd o addysg amser llawn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon; a phum mlynedd yn yr Alban. Yn rhan o'r pum mlynedd hyn, mae astudiaeth sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn academaidd o addysg amser llawn ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS. Llunnir y cyrsiau i gyfateb yn llawn â disgrifyddion y cymwysterau (ar lefel 6 y FHEQ neu lefel 10 SCQF y FQHEIS, ac ar lefel 7 y FHEQ neu lefel 11 SCQF y FQHEIS).

2.31 Mae myfyrwyr sy'n dilyn llwybrau rhan amser yn casglu credydau academaidd yn gymesur â dwyster eu hastudiaeth, a byddai cyfanswm eu hamser astudio a'u credydau'n gyfatebol â'r rhai a gyflawnir ar lwybrau llawn amser.

2.32 Gellir darparu cyrsiau'n hyblyg a gallant fod wedi:

- eu cynnig drwy astudio'n llawn amser neu'n rhan amser, yn unol â gweithdrefnau dilysu neu gymeradwyo'r darparwr
- eu llunio i ddefnyddio dysgu wedi ei wella gan dechnoleg i sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu sgiliau ar gyfer dysgu, rhyngweithio a chydweithio ar-lein, a fydd yn bwysig yn ystod eu cyflogaeth yn y dyfodol mewn byd sy'n gofyn yn gynyddol am sgiliau digidol
- eu cyd-ddylunio a'u hadolygu mewn partneriaeth â myfyrwyr, cyflogwyr a phobl gyda phrofiad byw, gan fabwysiadu dulliau gweithredol a chyfranogol, dewis gwell a phersonoli addysg, a darparu cyfle ar gyfer gwell dysgu i fyfyrwyr - mae dulliau'n amrywio ar draws y sector yn ôl strategaeth sefydliadol leol, yn amrywio o brosesau adborth modiwlau a phwyllgorau staff-myfyrwyr i ymgynghoriad estynedig ar gynnwys y cwrs
- eu cynnig gyda phwyntiau mynediad cydnabod dysgu blaenorol, lle bo'n briodol, sy'n caniatáu i fyfyrwyr drosi gwybodaeth, sgiliau a phrofiad lefel gradd perthnasol yn gredydau i'w galluogi nhw i ddechrau'r rhaglen astudiaeth ar y lefel briodol; gall hyn ddod gyda gwybodaeth glir i fyfyrwyr am gostau, amseriadau a beth sy'n digwydd os methir asesiadau modiwlau
- eu darparu gan ddefnyddio dulliau dysgu ac addysgu cyfunol neu hybrid sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i gynhwysiant digidol a chynaliadwyedd, yn enwedig i wella hygyrchedd i fyfyrwyr ddysgu ar yr amser a chyflymder sydd orau iddyn nhw ac mewn lle o'u dewis hwy.

## Partneriaeth

2.33 Gallai cyrff dyfarnu graddau ddarparu cyrsiau mewn partneriaeth â darparwyr eraill trwy drefniadau dilysu ac etholfreinio. Gallai eraill weithio gyda phartneriaid sy'n darparu elfennau penodol y cwrs drwy ddysgu seiliedig ar ymarfer neu yn rhan o brentisiaeth. Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc fel hwn yn chwarae rôl bwysig mewn helpu partneriaid i ddylunio darpariaeth sy'n sicrhau bod safonau trothwy'n cael eu cyflawni mewn maes astudio penodol.

2.34 Disgwylir i gyrsiau Gwaith Cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â phobl gyda phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd neu y maent wedi eu cael i hyrwyddo dealltwriaeth, empathi ac ymarfer effeithiol. Mae hyn yn caniatáu i fyfyrwyr glywed ystod amrywiol o safbwyntiau a herio eu canfyddiadau, yn ogystal ag annog myfyrio ehangach.

2.35 Mae cyrsiau'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr dysgu seiliedig ar ymarfer, a rhanddeiliaid allanol perthnasol. Bydd dysgu seiliedig ar ymarfer yn atebol i gytundeb ysgrifenedig cydweithredol rhwng addysgwyr ymarfer, goruchwylwyr, darparwyr cyrsiau, darparwyr lleoliadau gwaith, a myfyrwyr. Disgwylir i gyrsiau Gwaith Cymdeithasol sicrhau bod barn y cyflogwyr, ymarferwyr a phobl gyda phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd

neu wedi eu cael o waith cymdeithasol, wedi eu hymgorffori i gynllun, datblygiad parhaus ac adolygiad y cwricwlwm.

2.36 Dylai cyrsiau fod wedi eu hysgrifennu mewn aliniad â safonau'r corff rheoleiddio sy'n berthnasol i'r wlad lle maen nhw'n cael eu darparu.

2.37 Mae partneriaethau'n annog datblygiad perthnasoedd proffesiynol. Maen nhw hefyd yn darparu sail gref i fyfyrwyr ar gyfer gwaith amlasiantaeth neu ryngddisgyblaethol yn y dyfodol. Mae hefyd ffocws cryf ar weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm a'r profiad dysgu ac ymarfer cyffredinol. Mae llais y myfyriwr wedi ei ymwreiddio ar bob lefel, gyda gwasanaethau staff a chymorth yn gwerthfawrogi ac yn gwrando ar adborth myfyrwyr
i wella darpariaeth.

## Monitro ac adolygu

2.38 Mae cyrff dyfarnu graddau, a'u partneriaethau cydweithredol, yn casglu a dadansoddi gwybodaeth yn rheolaidd ac yn gwneud adolygiad cwrs cyfnodol yn unol â'u hanghenion eu hunain. Bydd ystyried llais y myfyriwr yn rhan o hyn. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o bwyntiau cyfeirio allanol, yn cynnwys y Datganiad hwn, i sicrhau bod eu darpariaeth yn alinio â normau'r sector. Mae monitro a gwerthuso'n asesiad cyfnodol o gwrs, a wneir yn fewnol neu'n allanol gan werthuswyr annibynnol allanol. Mae gwerthusiad yn defnyddio gwybodaeth o fonitro cyfredol a hanesyddol i ddatblygu dealltwriaeth o gyflawniad myfyrwyr neu i hysbysu cynllunio cyrsiau yn y dyfodol.

2.39 Mae allanoldeb yn gydran hanfodol o'r system sicrhau ansawdd yn y DU. Bydd darparwyr yn defnyddio adolygwyr allanol yn rhan o adolygiad cyfnodol i gael safbwynt annibynnol ar unrhyw newidiadau a gynigir ac i sicrhau bod safonau trothwy'n cael eu cyflawni, a bod y cynnwys yn briodol ar gyfer y pwnc.

2.40 Mae'r system arholi allanol sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar draws sector addysg uwch y DU hefyd yn helpu i sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae safonau academaidd yn cael eu diogelu gan gyrff dyfarnu graddau. Fel arfer, gofynnir i arholwyr allanol roi sylwadau ar fathau, egwyddorion a phwrpasau asesiadau sy'n cael eu cynnig i fyfyrwyr. Byddant yn ystyried y mathau o fodiwlau a gynigir i fyfyrwyr, canlyniadau un garfan a sut mae'r rhain yn cymharu â darpariaeth debyg a gynigir mewn darparwyr addysg uwch eraill yn y DU. Gofynnir i arholwyr allanol gynhyrchu adroddiad bob blwyddyn a gwneud argymhellion am newidiadau i fodiwlau ac asesiadau (lle bo'n briodol). Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc fel hwn yn gallu chwarae rôl bwysig mewn cefnogi arholwyr allanol wrth iddynt gynghori a yw safonau trothwy'n cael eu cyflawni ai peidio mewn meysydd pwnc penodol.

2.41 Mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn wahanol am eu bod hefyd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid mewn gwaith monitro ac adolygu cyrsiau, yn cynnwys pobl gyda phrofiad byw o gymorth gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol sy'n ymarfer. Mae hyn yn sicrhau bod cyrsiau'n gyfredol ac yn berthnasol i anghenion y proffesiwn.

2.42 Bydd cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn gofyn cymeradwyaeth a monitro parhaus gan gyrff rheoleiddio. Mae'r rhain yn cael eu gwneud fel arfer drwy gyfuniad o ymweliadau safle ac adolygiadau pen desg.

# 3 Cynnwys, strwythur a darpariaeth

## Cynnwys

3.1 Mae darparwyr yn defnyddio'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol mewn perthynas ag awdurdodaeth benodol wrth lunio cyrsiau ar lefelau penodol. Disgwylir i gynnwys cwrs Gwaith Cymdeithasol fod wedi'i seilio ar egwyddorion bod yn berthnasol, cyfoes, wedi'i hysbysu gan dystiolaeth, cyfredol a chydlynol. Mae'n fuddiol os bydd cyrsiau'n cael eu cyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid, yn ogystal â bod yn ymatebol i anghenion a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae cynnwys cwrs sy'n gynhwysol ac wedi'i ddad-drefedigaethu'n cefnogi gwerthoedd gwaith cymdeithasol. Mae myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yn dysgu i weithio gyda, a chefnogi, unigolion, teuluoedd grwpiau a chymunedau mewn amrywiaeth o leoliadau ac i bob oedran.

3.2 Mae cyrsiau Gwaith Cymdeithasol yn cwmpasu'r wybodaeth, y gwerthoedd, y sgiliau a'r ymddygiad i baratoi myfyrwyr i fod yn ymarferwyr cymwys a myfyriol. Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, wybodaeth ddamcaniaethol, gwybodaeth ffeithiol, yn cynnwys ymchwil, a gwybodaeth ymarferol.

3.3 Fel arfer, yn y cynnwys mae ymchwil i hysbysu ymarferion, damcaniaethau o waith cymdeithasol a meysydd perthnasol, sgiliau, dulliau, a gwerthoedd a moeseg y proffesiwn. Mae cynnwys yn ymgorffori lleisiau'r rhai sydd â phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd neu y maent wedi eu cael, a lleisiau ymarferwyr. Mae'n archwilio ymarfer o fewn y DU ac yn fyd-eang. Mae'r meysydd allweddol yn cynnwys arweinyddiaeth a darpariaeth y gwasanaeth, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau allweddol, polisi cymdeithasol, deddfwriaeth, a datblygiad gwybodaeth a sgiliau sy'n benodol i bwnc, sy'n fyfyriol ac sydd wedi eu hysbysu gan ymchwil. Cefnogir myfyrwyr i adeiladu hunaniaeth broffesiynol ac arferion dysgu gydol oes, gan hefyd ddatblygu gwybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau craidd, mewn casglu gwybodaeth, datrys problemau, dadansoddi, cyfuno, ymyrryd, gwerthuso, cyfathrebu ac arferion cydweithredol.

3.4 Mae'r ffaith bod angen cymryd rhan mewn dysgu ymarferol yn rhan sylfaenol o'r cwricwlwm Gwaith Cymdeithasol. Gweithredir dysgu seiliedig ar ymarfer mewn gweithfannau ac mae'n cynnwys cymryd rhan yn weithredol a rhyngweithio'n uniongyrchol ag unigolion sydd â phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd neu y maent wedi eu cael, yn cynnwys rhieni, gofalwyr, y gymuned ehangach a gweithwyr proffesiynol eraill. Gall hefyd gwmpasu gwylio gweithwyr proffesiynol ac unigolion eraill sydd â phrofiad byw, datblygu a dadansoddi sgiliau, cysgodi, goruchwylio, dadansoddi myfyriol, ymchwil, ac ymyriadau rhyngddisgyblaethol neu amlasiantaeth ym maes gwaith cymdeithasol a sefydliadau cysylltiedig. Mae disgwyliad i wybodaeth mewn gwaith cymdeithasol gael ei hintegreiddio a'i defnyddio'n glir mewn gwaith ymarferol.

3.5 Mae cynnwys y cwrs, cyfleoedd dysgu seiliedig ar ymarfer ac asesu dysgu wedi ei ddilyniannu i alluogi dysgu a datblygu cynyddrannol fel y bo'n berthnasol i'r lefel o astudiaeth.

## Dysgu ac addysgu

3.6 Mae dysgu ac addysgu wedi ei sgaffaldio mewn ffordd sy'n caniatáu i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol dderbyn cyflwyniad cynhwysfawr i addysg uwch gydag elfennau sy'n berthnasol i'w lefel hwy o gynnydd. Wrth i fyfyrwyr symud drwy'r cwrs, maen nhw'n cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain, gan eu paratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Y nod yw dylunio strategaethau dysgu ac addysgu sy'n gynhwysol, hygyrch, diddorol, effeithiol a hwyliog i fyfyrwyr. Disgwylir i'r dysgu gael ei hwyluso gan amrywiaeth o bobl, yn cynnwys staff academaidd, ymchwilwyr, ymarferwyr mewn gwaith cymdeithasol a phobl gyda phrofiadau y maent yn byw drwyddynt ar hyn o bryd neu wedi eu cael.

3.7 Mae modd rhannu'r prosesau dysgu mewn cyrsiau Gwaith Cymdeithasol i bum thema ryng-berthnasol: cynyddu ymwybyddiaeth, dysgu sgiliau a gwybodaeth, dealltwriaeth gysyniadol,

ymarfer sgiliau a phrofiad, a myfyrio ar berfformiad (mae'r rhain wedi eu hadlewyrchu yn y safonau meincnodi sydd wedi eu nodi yn adran 4). Mae'r themâu wedi eu gweithredu mewn amrywiol ddulliau dysgu ac addysgu, yn cynnwys darlithoedd, darllen, astudiaeth annibynnol, gweithdai, dysgu wedi ei seilio ar broblem, efelychiadau, gweithgareddau gyda chyfoedion, technolegau, chwarae rôl a dysgu seiliedig ar ymarfer. Gallai sesiynau addysgu ddigwydd yn gyfamserol, ar wahanol adegau, neu mewn fformat wedi'i gyfuno, yn dibynnu ar y cyd-destun penodol.

## Asesu

3.8 Mae asesiad o fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol wedi ei seilio mewn egwyddorion o gynhwysiant, hygyrchedd ac uniondeb a bydd yn ymgorffori adborth ac yn ei fwydo ymlaen. Diben craidd asesiad yw mesur dysgu a gallu, sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cyflawni a darparu dulliau i fyfyrwyr fyfyrio ar eu perfformiad a derbyn adborth rheolaidd am eu cyflawniadau a'u hanghenion datblygu. Mae cyrsiau'n gosod tasgau sy'n hyrwyddo dysgu, yn datblygu a phrofi gwybodaeth a sgiliau perthnasol, yn defnyddio amrywiol ffynonellau, yn cynnwys cyd-destunau ymarferion. Gellir seilio asesiadau ar waith go iawn, gan adlewyrchu gofynion y proffesiwn. Gallai rhai asesiadau ar draws y cyrsiau gynnwys cyd-gynhyrchu a chyd-ddarparu gyda rhanddeiliaid. Mae meini prawf asesu wedi eu hesbonio'n glir a'u cysylltu'n eglur â deilliannau dysgu cyrsiau a modiwlau. Mae asesiad yn galluogi i'r asesydd basio barn am barodrwydd y myfyriwr i weithio, symud ymlaen a chyflawni'r dyfarniad terfynol, gan sicrhau eu bod yn addas i ymarfer yn unol â'r safonau proffesiynol.

3.9 Anogir amrywiaeth o ddulliau asesu er mwyn hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn cynnwys asesiadau o ddysgu seiliedig ar ymarfer. Mae'r dewis o ddulliau asesu'n ymwneud yn agos â'r deilliannau dysgu y maen nhw'n amcanu i'w datblygu a'u mesur. Gallai'r dulliau hyn gynnwys sesiynau sgiliau ymarferol, asesiadau trwy ddialog, hunan-asesiadau, cynhyrchion digidol, gwaith ysgrifenedig, cyflwyniadau, creu portffolio ac arholiadau.
Gall asesiadau ffurfiannol a chrynodol gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, yn cynnwys hunan-asesiad, cymheiriaid, addysgwyr ymarfer a phobl gyda phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd neu y maent wedi eu cael. Gall asesiadau ddigwydd mewn amrywiol amgylcheddau, yn cynnwys lleoliadau ar-lein ac mewn lleoliadau lle cyflawnir gwaith ymarferol.

# 4 Safonau meincnodi

## Cyflwyniad

4.1 Mae Gwaith Cymdeithasol yn gymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol y gellir ei ddarparu mewn gradd anrhydedd israddedig neu ddyfarniad ôl-raddedig. Mae'n bwnc academaidd a weithredir drwy ymarfer proffesiynol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni gofynion academaidd ac ymarferol eu cyrsiau. Hefyd, disgwylir i raddedigion gyflawni unrhyw safonau penodol a osodir gan y corff rheoleiddio perthnasol yn y wlad lle mae'r cwrs yn cael ei ddarparu.

4.2 Nodwch nad yw'r safonau trothwy gofynnol a ddisgrifir yma wedi eu bwriadu i nodi'n fanwl beth yw'r safonau gallu cyffredinol ar gyfer disgyblaeth benodol. Os bydd darparwr yn dewis datblygu safonau gallu (fel y maent wedi eu diffinio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol yng Ngogledd Iwerddon) yn rhan o fanyleb rhaglen, gall y rhain gael eu hysbysu gan y Datganiad Meincnodi Pwnc perthnasol ynghyd ag unrhyw ofynion gan y cyrff PSRh. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai darparwyr ddilyn y canllawiau diweddaraf gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

4.3 Mae'r Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn nodi'r safonau trothwy gofynnol y bydd myfyriwr sy'n astudio Gwaith Cymdeithasol wedi eu dangos pan maen nhw'n cael eu dyfarnu:

- gradd baglor gydag anrhydedd
- gradd meistr integredig
- gradd meistr ôl-raddedig a addysgir.

4.4 Bydd arddangos y safonau hyn dros amser yn dangos bod myfyriwr wedi cyflawni'r ystod o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddisgwylir gan raddedigion ym maes gwaith cymdeithasol.

4.5 Er bod y gofynion ar gyfer ymarfer yn safonol ar draws cyrsiau Gwaith Cymdeithasol israddedig ac ôl-raddedig, bydd y cwrs academaidd a'i fodiwlau wedi eu llunio a'u hasesu ar y lefel briodol, lefel 6 (sef lefel 10 SCQF yn yr Alban) neu lefel 7 (sef lefel 11 SCQF yn yr Alban). Felly, o anghenraid, rhaid eu defnyddio o fewn cyd-destun cyrsiau unigol. Mae'r graddau Gwaith Cymdeithasol i gyd wedi eu hachredu gan gyrff rheoleiddio (gwelwch adran 2 i gael rhagor o fanylion). Yn gymwys hefyd bydd deilliannau dysgu a ddiffinnir gan y corff rheoleiddio i gefnogi datblygiad y wybodaeth, y gwerthoedd, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer cofrestriad proffesiynol.

## Dosbarthu

4.6 Bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn perfformio'n sylweddol well na'r safonau trothwy gofynnol. Mae gan bob darparwr addysg uwch ei ddull ei hun o benderfynu pa dystiolaeth briodol o'r cyflawniad hwn fydd yn ofynnol.

4.7 Ar gyfer graddau baglor gydag anrhydedd, gall darparwyr gyfeirio at Atodiad D y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU (FHEQ) sy'n nodi disgrifiadau cyffredin y pedwar prif ddosbarthiad deilliannau gradd ar gyfer graddau baglor gydag anrhydedd - 1af, 2.1, 2.2 a 3ydd - ac ar gyfer dyfarniadau ôl-raddedig ar lefel 6 (sef lefel 10 SCQF yn yr Alban). Yn y Datganiad hwn, mae cyrhaeddiad 'lefel trothwy' fel arfer yn mapio ar hwnnw sy'n gysylltiedig â gradd anrhydedd trydydd dosbarth. Mae 'nodweddiadol' yn mapio i 2.2 neu 2.1., a 'rhagorol' i radd dosbarth cyntaf (1af).

4.8 Mae arferion dosbarthu tebyg yn eu lle ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at radd meistr wedi eu hintegreiddio, gyda dyfarniadau 2.1, 2.2 a dosbarth 1af. Ar gyrsiau sy'n arwain at radd meistr, mae cyflawniad uwchlaw canlyniadau'r trothwy'n arwain at ddyfarniadau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth'.

Ar gyfer pob dyfarniad, bydd y meini prawf ar gyfer cyflawniad uwchlaw'r trothwy'n cyfateb â chynlluniau marcio cyffredin neu generig y darparwr addysg uwch.

## Gradd baglor gydag anrhydedd

### Safonau gofynnol

4.9 Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n graddio gyda gradd baglor gydag anrhydedd ym maes gwaith cymdeithasol ddangos cyrhaeddiad lefel trothwy o leiaf ar draws yr holl gategorïau sydd wedi eu hamlinellu mewn pedwar prif faes: **gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau dangosadwy, gwerthoedd a moeseg, a gofynion cyrff PSRh**.

4.10 Bydd y meini prawf ar gyfer cyflawniad ar lefel trothwy'n cyfateb â chynlluniau marcio cyffredin neu generig y darparwr addysg uwch ar gyfer cyrsiau israddedig a'r safonau a gydnabyddir gan y sector sy'n cael eu defnyddio ymhob gwlad o'r DU. Bydd y trothwy, yn cynnwys y nifer gofynnol o ddyddiau gorfodol yn ymarfer, wedi ei benderfynu hefyd gan y corff rheoleiddio proffesiynol perthnasol.

4.11 Pan fyddant yn graddio gyda gradd anrhydedd mewn Gwaith Cymdeithasol, bydd graddedigion wedi dangos y canlynol:

**Gwybodaeth a dealltwriaeth:** Gwybodaeth a dealltwriaeth gydlynol o gyd-destun gwaith cymdeithasol proffesiynol, sail gwybodaeth gwaith cymdeithasol a'i gymhwysiad ymarferol, yn cynnwys:

a) ymwybyddiaeth o rôl gwaith cymdeithasol ar draws y byd ac yn y DU a'r cenhedloedd sy'n rhan ohoni
b) dealltwriaeth o waith cymdeithasol ar draws sectorau statudol, annibynnol, gwirfoddol a thrydydd sector
c) y gallu i adnabod ac asesu ymchwil a'i gymhwyso'n feirniadol i gefnogi sail dystiolaeth gref i hysbysu ac arwain arfer proffesiynol
d) dealltwriaeth feirniadol o ddamcaniaeth, polisi, cyd-destun deddfwriaethol, dulliau a sgiliau, ac ymwybyddiaeth o sut maen nhw'n berthnasol i ymarfer
e) tystiolaeth ac arddangosiad o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad ehangach neu alluoedd proffesiynol sy'n ofynnol gan gyrff rheoleiddio
f) ymgysylltiad â dadleuon diwylliannol a chymdeithasol cyfoes, fel y rhai sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb, grym a gorthrwm
g) dealltwriaeth o berthnasedd y newid hinsawdd, cyfiawnder cymdeithasol, ecolegol ac amgylcheddol, gwrthdaro a'r gostyngiad mewn democratiaeth, a rôl gwaith cymdeithasol mewn ymdrin â'r effaith ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, peryglon amgylcheddol o ran eu heffeithiau ar gyflawni hawliau dynol unigolion a chymunedau a'r baich anghymesur ar y bobl sydd eisoes yn wynebu caledi neu anghydraddoldeb, megis tlodi, hiliaeth neu wahaniaethu ar sail anabledd
h) y gallu i ddeall, adnabod ac ymateb yn briodol i angen a risg
i) adnabod materion croestoriadol a allai effeithio ar angen a risg, ac ymateb a herio lle bo raid
j) deall sail gwybodaeth a gwerthoedd gwaith cymdeithasol, a'u defnydd a chymhwysiad integredig wrth weithio ar draws gwahanol ddisgyblaethau
k) ymwybyddiaeth feirniadol o gyd-destunau gwleidyddol a chymdeithasol gwrthgyferbyniol, ac ymrwymiad i arferion gwrth-wahaniaethu, gwrth-orthrwm a gwrth-hiliol
l) y gallu i ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i ymwneud yn effeithiol â phobl sydd â phrofiad byw a gweithwyr proffesiynol eraill i wella canlyniadau
m) dysgu parhaus, myfyrio ar brofiad a defnyddio adborth, gyda'r gallu i ymgorffori hyn mewn dysgu ac arferion yn y dyfodol.

**Sgiliau dangosadwy:** Cymhwyso sgiliau gwaith cymdeithasol mewn ffordd gyson. Cymhwyso amrywiaeth o ddulliau gwaith cymdeithasol yn fyfyriol, wedi eu tanategu gan feddwl beirniadol, gwneud penderfyniadau deallus ar sail tystiolaeth, a deall cyd-destun ymarfer amrywiol, yn cynnwys y gallu i:

n) ddefnyddio gwybodaeth, dealltwriaeth a meddwl beirniadol i hysbysu ymarfer, gan ddefnyddio damcaniaeth, polisi, cyd-destun deddfwriaethol, dulliau a sgiliau
o) defnyddio a gwerthuso ymchwil a thystiolaeth ehangach i hysbysu arferion a phenderfyniadau
p) adeiladu perthnasoedd a gweithio mewn partneriaeth ag unigolion sydd â phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd neu y maent wedi eu cael, a gweithwyr proffesiynol eraill ar draws asiantaethau
q) ymarfer mewn ffyrdd amgylcheddol gynaliadwy
r) cyfathrebu'n effeithiol, yn eiriol, heb eiriau ac yn ysgrifenedig ag unigolion sydd â phrofiadau byw y maent yn eu cael ar hyn o bryd neu y maent wedi eu cael, a gweithwyr proffesiynol eraill ar draws lefelau a chyd-destunau
s) gweithio o fewn timau, systemau a phrosesau, casglu, prosesu a dadansoddi gwybodaeth er mwyn galluogi dealltwriaeth ac ymyriadau
t) rhyngweithio a chydweithio ag asiantaethau a disgyblaethau eraill
u) dangos cymhwysiad gwerthoedd a moeseg gwaith cymdeithasol, yn cynnwys arferion gostyngeiddrwydd diwylliannol, gwrth-wahaniaethu, gwrth-orthrwm a gwrth-hiliol
v) cynnal safonau perthnasol o ymddygiad personol a phroffesiynol, gan ddefnyddio safonau a/neu godau ymarfer perthnasol
w) ymgysylltu'n feirniadol â thechnoleg ddigidol i gasglu, dadansoddi, dethol, cofnodi a chyflwyno gwybodaeth
x) arfer lefel briodol o ymreolaeth a gwneud penderfyniadau o fewn cyd-destun y sefydliadau i sicrhau arferion diogel ac effeithiol
y) cefnogi pobl i wella canlyniadau a rheoli a gostwng risgiau
z) cydnabod urddas yr unigolyn, gan weithio mewn ffordd wedi'i seilio ar eu cryfderau sy'n eu grymuso
aa) gwneud a gweithredu penderfyniadau anodd (gan gynnwys cyfyngu ar ryddid) mewn sefyllfaoedd dynol sy'n cynnwys y potensial i elwa gan hefyd ddeall niwed
bb) amddiffyn yn hyderus unrhyw benderfyniadau a wnaed, gan dynnu ar sail dystiolaeth eang
cc) dangos sgiliau eiriolaeth ac arweiniad proffesiynol
dd) parchu ffiniau proffesiynol, gweithio o fewn cyfyngiadau'r rôl, adnabod ffynonellau cymorth lle bo'u hangen
ee) myfyrio'n feirniadol ar eu perfformiad, gan ddefnyddio adborth a thystiolaeth
ff) cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus, adnabod bylchau mewn gwybodaeth a ffyrdd o'u datrys nhw
gg) defnyddio cymorth a goruchwyliaeth yn effeithiol, i gynnal arferion diogel, effeithiol, atebol a chynaliadwy mewn amgylchedd gwaith ymdrechgar
hh) cymryd y cyfrifoldeb am eu lles eu hunain, yn cynnwys cymryd camau priodol a cheisio cymorth.

**Gwerthoedd a moeseg:** Ymrwymiad i ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol, wedi'i dywys gan werthoedd craidd y proffesiwn, yr egwyddorion moesegol a theimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol byd-eang

**Gofynion cyrff PSRh:** Dangos cyflawni'r lleiafswm gofynion a osodir gan y corff rheoleiddio proffesiynol, yn cynnwys y nifer gofynnol o ddiwrnodau a weithiwyd.

## Gradd meistr integredig

### Lefel trothwy (gradd trydydd dosbarth)

4.12 Mae graddau meistr integredig mewn Gwaith Cymdeithasol yn ychwanegu blwyddyn ychwanegol fel arfer o astudiaeth sy'n gyfatebol ag amser llawn i radd anrhydedd mewn Gwaith Cymdeithasol a chynnwys gwerth blwyddyn o astudio ar lefel meistr, gan gynnwys ymchwil yn aml iawn, ac mae gofyn iddynt gyflawni meincnodau gradd israddedig a gradd meistr mewn Gwaith Cymdeithasol.

4.13 Mewn perthynas â chyrsiau israddedig, mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n graddio gyda gradd meistr integredig mewn Gwaith Cymdeithasol ddangos cyrhaeddiad lefel trothwy o leiaf ar draws y pedwar categori - **gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau dangosadwy, gwerthoedd a moeseg, a gofynion cyrff PSRh** - fel y maent wedi eu disgrifio ym mharagraff 4.11 uchod. Yn aml iawn mae cyrhaeddiad lefel trothwy'n cyfateb â'r cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â gradd anrhydedd trydydd dosbarth. Bydd y trothwy, yn cynnwys y nifer gofynnol o ddiwrnodau gorfodol yn y gwaith, wedi eu penderfynu hefyd gan ofynion y corff rheoleiddio proffesiynol perthnasol.

4.14 Pan fyddant yn graddio gyda gradd meistr integredig mewn Gwaith Cymdeithasol, bydd graddedigion wedi dangos y canlynol:

**Gwybodaeth a dealltwriaeth:** Gwybodaeth a dealltwriaeth eang a beirniadol o gyd-destun gwaith cymdeithasol proffesiynol, sail gwybodaeth gwaith cymdeithasol a'i gymhwysiad ymarferol (paragraff 4.11 a-m). Tystiolaeth o gyflawni elfen o astudiaeth wedi ei hunan-gyfeirio, yn cynnwys ymholiad personol, er enghraifft prosiect ymchwil neu brosiect synoptig.

**Sgiliau dangosadwy:** Cymhwyso sgiliau gwaith cymdeithasol (paragraff 4.11 n-hh) mewn ffordd gyson. Defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwaith cymdeithasol yn gyson ac yn fyfyriol, wedi'u tanategu gan feddwl beirniadol, gwneud penderfyniadau deallus ar sail tystiolaeth, a dealltwriaeth gydag arlliw perthnasol o gyd-destunau ymarferion amrywiol.

**Gwerthoedd a moeseg:** Ymrwymiad i, a dealltwriaeth feirniadol o, ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol, wedi'i dywys gan werthoedd craidd y proffesiwn, yr egwyddorion moesegol, a theimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol byd-eang.

**Gofynion cyrff PSRh:** Dangos cyflawni'r lleiafswm gofynion a osodir gan y corff rheoleiddio proffesiynol, yn cynnwys y nifer gofynnol o ddiwrnodau a weithiwyd.

## Safonau meincnodi ar gyfer gradd meistr ôl-raddedig

4.15 Gall y safonau ar gyfer rhaglenni gradd meistr mewn Gwaith Cymdeithasol fod yn berthnasol hefyd i dystysgrifau a diplomâu ôl-raddedig. Mae'r cymwysterau hyn wedi eu lleoli ar yr un lefel academaidd â graddau meistr yn y Fframweithiau Cymwysterau ond maen nhw'n cynnwys maint is ar y cyfan o ddysgu (a chredyd lle defnyddir credyd)

### Lefel trothwy (gradd 'wedi pasio')

4.16 Mewn perthynas â chyrsiau ôl-raddedig, mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n graddio gyda gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol ddangos cyrhaeddiad lefel trothwy o leiaf ar draws yr holl gategorïau deilliannau perthnasol. Mae cyrhaeddiad lefel trothwy fel arfer yn cyfateb â'r cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â gradd 'wedi pasio'. Bydd y trothwy, yn cynnwys y nifer gofynnol o ddiwrnodau gorfodol yn y gwaith, wedi ei benderfynu hefyd gan ofynion y corff rheoleiddio proffesiynol perthnasol.

4.17 Pan fyddant yn graddio gyda gradd meistr mewn Gwaith Cymdeithasol, bydd graddedigion wedi dangos y canlynol.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth:** Dealltwriaeth wedi'i hysbysu'n feirniadol o'r cyd-destunau sy'n siapio gwaith cymdeithasol proffesiynol, ochr yn ochr â dealltwriaeth soffistigedig o'i sail gwybodaeth (paragraff 4.11 n-hh). Mae hyn hefyd yn cynnwys y gallu i gwestiynu a chymhwyso cysyniadau cymhleth mewn ymarfer gyda manylder deallusol ac ystyriol. Tystiolaeth o gyflawni elfen o astudiaeth wedi'i hunan-gyfeirio, yn cynnwys ymholiad personol, er enghraifft prosiect ymchwil neu brosiect synoptig a'r gallu i gynhyrchu mewnwelediadau gwreiddiol.

**Sgiliau dangosadwy:** Cymhwyso sgiliau a dulliau gwaith cymdeithasol (paragraff 4.11 a-s) mewn ffordd gyson. Mae ymarfer wedi ei danategu gan feddwl yn feirniadol, gwneud penderfyniadau deallus ar sail tystiolaeth, a dealltwriaeth o'r cymhlethdodau sy'n gynhenid mewn amgylcheddau ymarfer amrywiol. Arfer beirniadaeth broffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n foesegol heriol.

**Gwerthoedd a moeseg:** Ymrwymiad i, a dealltwriaeth feirniadol o, ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol, wedi'i dywys gan werthoedd craidd y proffesiwn, ei egwyddorion moesegol, a dealltwriaeth feirniadol o gyfrifoldeb cymdeithasol byd-eang.

**Gofynion cyrff PSRh:** Dangos cyflawni'r lleiafswm gofynion a osodir gan y corff rheoleiddio proffesiynol, yn cynnwys y nifer gofynnol o ddiwrnodau a weithiwyd.

# 5 Rhestr o gyfeiriadau ac adnoddau eraill

## Adnoddau defnyddiol i ddarparwyr cyrsiau

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain / British Association of Social Workers (2025) Generative AI & Social Work Practice Guidance, sydd ar gael ar: basw.co.uk/policy-and-practice/resources/generative-ai-social-work-practice-guidance

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain / British Association of Social Workers (2025) Shades of Bias, sydd ar gael ar: basw.co.uk/shades-bias-sob

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain / British Association of Social Workers (2024) The Synergy Sessions: BASW England mini-series, sydd ar gael ar: basw.co.uk/policy-and-practice/resources/synergy-sessions-basw-england-mini-series

Decolonising Social Work Field Education (2025) Decolonise and Rehumanise Social Work Field Education, sydd ar gael ar: www.dialogueswfe.org/episode-2

Diverse Educators (2025) 'When they try to deny us, resist with Shades of Bias!', sydd ar gael ar: www.diverseeducators.co.uk/when-they-try-to-deny-us-resist-with-shades-of-bias

Harms-Smith, L a Martinez-Herrero, MI, Arnell, P, Bolger, J, Butler-Warke, A, Cook, W, Downie, M, Farmer, N, Nicholls, J a MacDermott, D (2019) Social Work and Human Rights: A Practice Guide, BASW: Birmingham, sydd ar gael ar: new.basw.co.uk/policy-and-practice/resources/social-work-and-human-rights-practice-guide

Trevithick, P (2016) A lexicon of 80 skills + interventions, sydd ar gael ar: www.researchgate.net/publication/307631866_A_lexicon_of_80_skills_interventions

## Cyfeiriadau


Butler-Warke, A, a Bolger, J (2020) Fifty years of social work education: Analysis of motivations and outcomes, *Journal of Social Work*, 21(5), tud 1019-1040 doi.org/10.1177/1468017320911603 (Cyhoeddwyd y gwaith gwreiddiol yn 2021)

Cernega A, Nicolescu DN, Meleșcanu Imre M, Ripszky Totan A, Arsene AL, Șerban RS, Perpelea AC, Nedea MI, Pițuru SM (2024) Volatility, Uncertainty, Complexity, and Ambiguity (VUCA) in Healthcare, *Healthcare* (Basel). Ebr 2;12(7):773 doi: 10.3390/healthcare12070773. PMID: 38610195; PMCID: PMC11011466

Gottlieb, M (2021) The Case for a Cultural Humility Framework in Social Work Practice, *Journal of Ethnic & Cultural Diversity in Social Work*, 30(6), tud 463-481 doi.org/10.1080/15313204.2020.1753615

Jones, R (2020) 1970-2020: A fifty-year history the personal social services and social work in England and across the United Kingdom, *Social Work and Social Sciences Review*, 21(3), tud 8-44 doi.org/10.1921/swssr.v21i3.1495

Lekas HM, Pahl K, Fuller Lewis C (2020) Rethinking Cultural Competence: Shifting to Cultural Humility, *Health Services Insights* Rhag 20;13:1178632920970580 doi: 10.1177/1178632920970580. PMID: 33424230; PMCID: PMC7756036

Livingston, W, Redcliffe, J, ac Aziz, AQ (golygyddion) (2023) Social Work in Wales, *Policy Press, Bryste, DU,* sydd ar gael ar: doi.org/10.51952/9781447367215

MacDermott, D (2024) A chronology of the history and development of social work education in Northern Ireland, *Social Work Education*, 43(9), tud 2588-2610
doi.org/10.1080/02615479.2023.2275650

Trevithick, P (2009) Revisiting the Knowledge Base of Social Work: A Framework for Practice, *British Journal of Social Work* 38(6)
doi: 10.1093/bjsw/bcm026

## Adnoddau defnyddiol gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio

### Cymru

Yn Gymraeg:

Gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer cyrsiau gwaith cymdeithasol:

Cymwysterau gwaith cymdeithasol
gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/cymwysterau-gwaith-cymdeithsol

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-a-chanllawiau/blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant/safonau-galwedigaethol-cenedlaethol-nos/gwaith-cymdeithasol

Codau Ymarfer Proffesiynol
gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau

Yn Saesneg:

Social Care Wales requirements for social work courses:

Social work qualifications
socialcare.wales/qualifications-funding/social-work-qualifications

National Occupational Standards (NOS) for social work
socialcare.wales/resources-guidance/early-years-and-childcare/national-occupational-standards-nos/social-work

Code of Professional Practice for Social Care Workers
socialcare.wales/dealing-with-concerns/codes-of-practice-and-guidance

### Lloegr

Gwaith Cymdeithasol Lloegr / Social Work England:

Professional standards (2019)
www.socialworkengland.org.uk/standards/professional-standards

Education and training standards
www.socialworkengland.org.uk/standards/education-and-training-standards

Knowledge, skills and behaviours
www.socialworkengland.org.uk/education-training/knowledge-skills-and-behaviours

## Gogledd Iwerddon

Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon / Northern Ireland Social Care Council:

Framework Specification for the degree in social work (2015)
the-northern-ireland-framework-specification-for-the-degree-2015.pdf

Standards of conduct for social work students (2019)
niscc.info/standards-and-guidance

## Yr Alban

Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban / Scottish Social Services Council (SSSC):

Standards for Social Work and Ethical principles
www.sssc.uk.com/about-us/publications/standards-in-social-work-education-and-ethical-principles

Scottish Requirements for Social Work Education
www.sssc.uk.com/about-us/publications/scottish-requirements-for-social-work-education

Codes of Practice for Social Service Workers and Employers 2024
www.sssc.uk.com/standards/codes-of-practice

# 6 Aelodaeth y Grŵp Cynghori

**Aelodaeth y Grŵp Cynghori ar gyfer fersiwn 2026 o'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol**

| **Enw'r aelod** | **Enw'r corff/sefydliad** |
|---|---|
| Andrea Collins (Cadeirydd) | Prifysgol Fetropolitan Manceinion |
| Yvalia Febrer (Dirprwy Gadeirydd) | Prifysgol Kingston Llundain |
| Dr Denise MacDermott (Dirprwy Gadeirydd) | Prifysgol Ulster |
| Nadira Begum | Cydlynydd yn QAA |
| Zoe Burke | Gwaith Cymdeithasol Lloegr |
| Dr Neil Casey | Swyddog QAA |
| Tricia Devlin | Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon |
| Sara Driscoll | Prifysgol Strathclyde |
| Lindsay Giddings | Y Brifysgol Agored |
| Dr Kim Heanue | Prifysgol Huddersfield |
| Dr Gemma Hunt | Coleg Prifysgol Birmingham |
| Dr Wahida Kent | Prifysgol Abertawe |
| Dr Beth Moran | Prifysgol Plymouth |
| Liza Noble | Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban |
| Wayne Reid | Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain |
| Rachael Rooke | Prifysgol Fetropolitan Manceinion |
| Dr Tom Slater | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Yr Athro Clare Stone | Prifysgol Caerhirfryn |
| Alice Tremaine (Myfyriwr) | Prifysgol Caerhirfryn |
| Dr Gavin Tucker | annibynnol |
| Yr Athro Aidan Worsley | Gwaith Cymdeithasol Lloegr |

**Aelodaeth y Grŵp Cynghori ar gyfer fersiwn 2019 (diweddariad bach) o'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol**

Cafodd y pedwerydd argraffiad hwn, a gyhoeddwyd yn 2019, ei adolygu gan QAA i alinio ei gynnwys â'r fersiwn ddiwygiedig o God Ansawdd Addysg Uwch y DU a gyhoeddwyd yn 2018. Cafodd unrhyw newidiadau arfaethedig eu gwirio a'u dilysu gan aelod o'r grŵp cynghori ar gyfer fersiwn 2016 o'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.

| **Enw'r aelod** | **Enw'r corff/sefydliad** |
|---|---|
| Sam Baron | Prifysgol Fetropolitan Manceinion |
| Simon Bullock | QAA |

**Aelodaeth y Grŵp Cynghori ar gyfer fersiwn 2016 o'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol**

| **Enw'r aelod** | **Enw'r corff/sefydliad** |
|---|---|
| Yr Athro Di Bailey (Cyd-gadeirydd) | Cymdeithas yr Athrawon mewn Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Nottingham Trent |
| Sam Baron (Cyd-gadeirydd) | Pwyllgor Addysg Gwaith Cymdeithasol Cyd-gyngor Prifysgol Fetropolitan Manceinion |
| Harriet Barnes | QAA |
| Dr Gavin Davidson | Prifysgol y Frenhines, Belfast |
| Brendon Edmonds | Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal |
| Jan Houston | Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon |
| Yr Athro Michael Lavalette | Prifysgol Hope Lerpwl |
| Mick McCormick | Y Brifysgol Agored |
| Pearse McCusker | Prifysgol Glasgow Caledonian |
| Karen McLaughlin / Anne Tavendale | Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban |
| Jane McLenachan | Prifysgol Stirling |
| Yr Athro Kate Morris | Prifysgol Sheffield |
| Michele Raithby | Prifysgol Abertawe |
| Ian Thomas | Cyngor Gofal Cymru |
| Cara Williams (Myfyriwr ddarllenydd) | Coleg Blackburn |
| Yr Athro Aidan Worsley | Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn |

**Aelodaeth y Grŵp Cynghori ar gyfer fersiwn 2008 o'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol**

| **Enw'r aelod** | **Enw'r corff/sefydliad** |
|---|---|
| Yr Athro Joan Orme (Cyd-gadeirydd) | Prifysgol Gorllewin yr Alban |
| Yr Athro Michael Preston-Shoot (Cyd-gadeirydd) | Prifysgol Swydd Bedford |
| Janet Fabb | Prifysgol Caerdydd |
| Dr Sally Holland | Ysgol Gwaith Cymdeithasol Glasgow (a weithredir ar y cyd gan Brifysgol Glasgow a Phrifysgol Strathclyde) |
| Yr Athro Jackie Powell | Prifysgol Southampton |
| Jackie Rafferty | Canolfan Pwnc yr Academi Addysg Uwch ar gyfer Polisi Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol |
| Dr Caroline Skehill | Prifysgol y Frenhines, Belfast |
| Hilary Tompsett | Prifysgol Kingston Llundain |

**Aelodaeth y Grŵp Cynghori ar gyfer fersiwn 2000 o'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol**

| Enw'r aelod | Enw'r corff/sefydliad |
|---|---|
| Yr Athro B Williams (Cadeirydd) | Prifysgol Dundee |
| Mr P Bywaters | Prifysgol Coventry |
| Ms A Cleverly | Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd |
| Mr S Collins | Prifysgol Cymru, Bangor |
| Dr R G Colman | Prifysgol Caerlŷr |
| Dr P Higham | Prifysgol Nottingham Trent |
| Mr J Lewis | Prifysgol Plymouth |
| Yr Athro J Lishman | Prifysgol Robert Gordon |
| Ms J Powell | Prifysgol Southampton |
| Dr S Trevillion | Prifysgol Brunel Llundain |

Y pumed argraffiad

Cyhoeddwyd ar 16 Ebrill 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

www.qaa.ac.uk